Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Network Cymru

# Communities4Change Cymru:

## Adroddiad gwerthuso



Awst 2023

*© 2023, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ceir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant argraffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

***ISBN:*** *978-1-83766-214-2*

***Fersiwn 1.0***

***Awduron:***

*Troy Wey (TW), Cathrine Winding (CW), Christian Heathcote-Elliott (CHE) a Dr Ciarán Humphreys (CH), yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

*Lucia Homolova (LH), yr Is-adran Ymchwil a Gwerthuso, y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

***Cydnabyddiaeth:***

*Hoffai'r Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd ddiolch i'r bobl ganlynol:*

*Des Brown a Mandy Westcott (Q Lab Cymru) am gynorthwyo Grŵp Goruchwylio'r Prosiect i ddatblygu damcaniaeth newid a myfyrio ar ymagwedd Communities4Change Cymru yn ystod y prosiect peilot.*

*Treena Davies, Gwenno Edwards a Noreen Blanluet (Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru) am ddarparu arbenigedd cyflawni a hwyluso.*

*Yr holl gyfranogwyr a gyfrannodd at y gwerthusiad ac a roddodd wybodaeth yn rhydd.*

# Cynnwys

**1 CRYNODEB ........ 4**

**2 CEFNDIR ........ 6**
2.1 Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ........ 6
2.2 Ymagwedd Communities4Change Cymru ........ 6
2.3 Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg (CTMHHP) Communities4Change Cymru ........ 7

**3 AMCANION GWERTHUSO ........ 8**

**4 DULL GWERTHUSO ........ 8**

**5 CASGLU DATA A DADANSODDIADAU ........ 9**
5.1 Ystyriaethau moesegol ........ 9
5.2 Recriwtio cyfranogwyr ........ 9
5.3 Cyfweliadau lled-strwythuredig ........ 10
5.4 Dadansoddiadau data ........ 11

5.4.1 Datblygu fframwaith codio ........ 12

5.4.2 Sicrhau ansawdd y fframwaith codio ........ 12

5.4.3 Cymhwyso’r fframwaith codio i drawsgrifiadau ........ 12

**6 CANLYNIADAU ........ 12**
6.1 Myfyrdodau ar y broses C4C ........ 13

**6.1.1 Cyfweliadau Cam 1 (dechrau’r cam gweithredu)** ........ 13

**6.1.2 Cyfweliadau Cam 2 (cam ôl-weithredu)** ........ 19

**6.1.3 Cyfweliadau Cam 3 (ar ôl 6 mis)** ........ 29
6.2 Canlyniadau a gyflawnwyd ........ 32

**6.2.1 Cyfweliadau Cam 2 (cam ôl-weithredu)** ........ 32

**6.2.2 Cyfweliadau Cam 3 (ar ôl 6 mis)** ........ 33
6.3 Damcaniaeth Newid ........ 35
6.4 Dysgu allweddol ........ 35

**7 CASGLIADAU ........ 37**

**8 CYFEIRIADAU ........ 37**

# 1 Crynodeb

Datblygwyd Communities4Change Cymru fel ymagwedd wedi'i llywio gan dystiolaeth a'i chyfyngu gan amser sy'n dwyn ynghyd unigolion o nifer o wahanol asiantaethau â'r nod cyffredin o alluogi a chyflymu newid i wella iechyd a thegwch iechyd. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dymuno profi a gwerthuso'r ymagwedd.

Treialwyd Communities4Change gyda Phartneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg. Nod y grŵp amlasiantaethol hwn yw gwella iechyd a lles pobl yn Awdurdodau Lleol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr trwy wella ansawdd tai a faint o gymorth a roddir i bobl ddigartref.

Defnyddiodd y bartneriaeth lasbrint Communities4Change. Mae hyn yn cynnwys cam paratoi, cam gweithredu 100 o ddiwrnodau a cham dilynol, gyda rolau ar gyfer hwylusydd, arweinwyr cymunedol a chymuned ehangach. Roedd y prosiect peilot yn canolbwyntio ar ddatblygu dull o rannu, dehongli a defnyddio data ar gyfer gweithredu ar draws partneriaid mewn perthynas â thai ac iechyd. Dechreuodd y cam gweithredu yng nghanol mis Rhagfyr 2021 a daeth i ben yng nghanol mis Ebrill 2022, a chynhaliwyd y gweithdai a'r cyfarfodydd yn rhithwir.

Defnyddiodd y gwerthusiad hwn ddull ansoddol o archwilio proses a chanlyniadau'r prosiect peilot Communities4Change. Cynhaliwyd tair cyfres o gyfweliadau lled-strwythuredig (32 i gyd) gydag aelodau cydweithredol, gan gynnwys hwyluswyr, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect, uwch arweinwyr ac aelodau ehangach. Defnyddiwyd elfen anwythol o fersiwn atgyrchol Braun a Clark o ddadansoddi thematig i ddatblygu themâu, a dull diddwythol o ddatblygu fframwaith codio er mwyn codio data gan ddefnyddio meddalwedd ATLAS.ti.

Er na chyflawnwyd nodau'r gydweithrediaeth yn llawn yn ystod y cam gweithredu, gwnaed cynnydd sylweddol tuag at ddatblygu dull ar gyfer rhannu data iechyd a thai, gan gynnwys cytundeb rhannu gwybodaeth a datblygu'r saernïaeth ar gyfer dangosfwrdd. Yn ogystal, arweiniodd yr ymagwedd wedi'i chyfyngu gan amser at ddatblygu perthnasoedd effeithiol rhwng tai ac iechyd, ac roedd yn gysylltiedig â chanlyniadau anfwriadol cadarnhaol, gan gynnwys cael cyllid ar gyfer swydd iechyd a thai ar y cyd. Gweithredwyd y glasbrint yn unol â'r bwriad i raddau helaeth, gyda rhai eithriadau, ac roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi ymagwedd Communities4Change.

Mae'r gwerthusiad wedi dangos defnyddioldeb yr ymagwedd, sy'n ymestyn y tu hwnt i oes y prosiect. Yn ogystal â chanlyniadau'r prosiect, dangosodd yr ymagwedd bwysigrwydd y perthnasoedd rhwng y rhai hynny a oedd yn gysylltiedig, a gwerth hwyluso a hyfforddi allanol. Er mwyn cymhwyso Communities4Change yn effeithiol, mae angen i adnoddau, gan gynnwys

hwyluswyr medrus, fod ar gael lle mae'r ewyllys i gyflawni newid i fynd i'r afael â phroblem, ond lle nad yw syniadau ynglŷn â natur y datrysiad(au) yn ddiysgog.

Bydd y wybodaeth a gafwyd o'r gwerthusiad hwn yn cyfrannu at fireinio glasbrint Communities4Change Cymru.

# 2 Cefndir

## 2.1 Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

Sefydlwyd Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHNC) ym mis Mai 2015, yn sgil cyfuno pedwar rhwydwaith yn ymwneud â phynciau penodol. Fe'i cynhelir gan yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae ganddo fwy na 2,500 o aelodau o'r byd academaidd a'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat. Mae'r rhwydwaith yn cynnal nifer o weithgareddau, gan gynnwys cynadleddau, seminarau, sioeau teithiol, e-fwletinau, podlediadau a gwefan 'siop un stop'. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhwydwaith wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyfnewid gwybodaeth rhwng aelodau ac arbenigwyr pwnc. Pwysleisiodd gwerthusiad a gynhaliwyd yn 2017 werth y rhwydwaith, ond amlygodd hefyd fod angen aelodaeth fwy ymgysylltiedig a allai gyfrannu'n weithredol at drafodaethau ac ymwneud â chyflymu gweithredu ar iechyd cyhoeddus. Un ffordd o gyflawni'r nod hwn fyddai datblygu ymagwedd a fyddai'n dwyn ynghyd safbwyntiau aelodau amrywiol mewn mannau creadigol i ddatblygu datrysiadau ac ymagweddau i lywio polisi, ymarfer ac ymchwil.


## 2.2 Ymagwedd Communities4Change Cymru

Mae Communities4Change (C4C) Cymru yn ymagwedd wedi'i llywio gan dystiolaeth a'i chyfyngu gan amser sy'n dwyn ynghyd unigolion o nifer o wahanol asiantaethau â'r nod cyffredin o alluogi a chyflymu newid i wella iechyd a thegwch iechyd. Datblygwyd yr ymagwedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyn adolygiad ciplun o lenyddiaeth lwyd yn 2021[1] ac ymgynghori ag arbenigwyr pwnc ynglŷn ag ymagweddau cydweithredol at newid, gan gynnwys newid ar raddfa fawr, ymagweddau gwella ansawdd ac ymagweddau arloesi. Datblygwyd glasbrint C4C Cymru[2] a oedd yn amlinellu'r egwyddorion, yr elfennau hanfodol, y camau a'r offer hwyluso y gellir eu defnyddio yn y gwahanol gamau. Mae Ffigur 1 yn dangos cylch oes C4C Cymru. Cynhyrchwyd canllaw hwyluso hefyd.

Gweithiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda phartneriaid i dreialu'r ymagwedd yn ystod 2021-2022. Sefydlwyd Grŵp Goruchwylio'r Prosiect i fonitro ac adrodd ar gynnydd y prosiect, ystyried yr hyn a ddysgwyd o weithdai myfyrio a rhoi cyfeiriad a chyngor er mwyn gweithredu'r prosiect peilot. Roedd y grŵp yn cynnwys Lab Cymru a gynorthwyodd y grŵp goruchwylio trwy gyfres o weithdai dylunio a myfyrio. Comisiynwyd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu gwasanaethau rheoli prosiect, hwyluso gweithdai a chymorth hyfforddi, a gwnaethant hefyd gymryd rhan yng Ngrŵp Goruchwylio'r

Prosiect. Datblygodd Grŵp Goruchwylio'r Prosiect ddamcaniaeth newid a ddefnyddiwyd i lywio'r gwerthusiad (gweler Atodiad Ychwanegol Un).

**Ffigur 1: Cylch oes Communities4Change Cymru**




| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| Paratoi | Gweithio gyda'r noddwr ac arweinwyr Communities4Change Cymru i bennu hyd a lled y gwaith, recriwtio aelodau a chytuno ar ofynion adnoddau hwyluso |
| Gweithredu | Ffurfio grŵp Communities4Change Cymru ac ymgymryd â'r gwaith y cytunwyd arno am **gyfnod cytunedig o ddim mwy na 100 niwrnod** |
| Dilynol | Asesu beth sy'n digwydd pan ddaw grŵp Communities4Change i ben (e.e. a gynhaliwyd newid, pwy y dylanwadwyd arno, pwy ddefnyddiodd yr allbynnau) |

## 2.3 Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg (CTMHHP) Communities4Change Cymru

Anfonwyd cais am fynegiadau o ddiddordeb i dreialu ymagwedd C4C Cymru a sefydlu cydweithrediaeth gyntaf C4C at aelodau PHNC ym mis Medi 2021. Yn eu cyflwyniad, gofynnwyd i sefydliadau â diddordeb ddangos bod y broblem yr oeddent yn dymuno mynd i'r afael â hi yn gysylltiedig â phenderfynydd ehangach iechyd (incwm ac adnoddau, lefel addysg, mynediad at waith teg, tai diogel ac o ansawdd da a'n hamgylchoedd), bod dealltwriaeth ddigonol ohoni, bod cefnogaeth ar lefel uwch am gyfnod â chyfyngiad amser i weithio ar ddatrysiad(au) ac y byddai'n golygu bod angen cydweithio amlasiantaethol.

Yn dilyn proses gyfweld, cytunwyd i dreialu ymagwedd C4C Cymru gyda CTMHHP, a noddir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Roedd CTMHHP yn bartneriaeth newydd ac, ymhen amser, roedd yn ceisio datblygu Cynllun Tai Iach tymor hir ar gyfer Cwm Taf Morgannwg.

Nod penodol cydweithrediaeth CTMHHP C4C Cymru oedd:

*"datblygu dull ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid iechyd, tai ac awdurdod lleol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i amlygu angen mewn poblogaethau ac ardaloedd daearyddol penodol,*

*teilwra ymyriadau ac adnoddau yn unol â'r angen, a monitro a gwerthuso mentrau sy'n ceisio gwella'r ddarpariaeth tai diogel ac o ansawdd da."*

Dechreuodd gam gweithredu CTMHHP C4C Cymru ar 14 Rhagfyr 2021.

# 3 Amcanion gwerthuso

Roedd y gwerthusiad hwn yn ceisio:

- archwilio i ba raddau yr oedd yr ymagwedd a amlinellwyd yng nglasbrint C4C Cymru wedi cael ei chyflawni fel y bwriadwyd gan gydweithrediaeth CTMHHP
- deall ymatebion y cyfranogwyr i'r ymagwedd, unrhyw newidiadau i'w hymarfer o ganlyniad i fod yn rhan o'r gydweithrediaeth, eu canfyddiadau o'r hyn y mae'r gydweithrediaeth wedi'i gyflawni ac amlygu unrhyw wersi a ddysgwyd,
- asesu i ba raddau yr oedd CTMHHP wedi cyflawni nod y gydweithrediaeth o fewn y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau a chynnydd dilynol a wnaed yn ystod y cam dilynol chwe mis, a
- myfyrio ar i ba raddau yr oedd y tybiaethau yn y ddamcaniaeth newid ar gyfer yr ymagwedd yn gywir.


# 4 Dull gwerthuso

Defnyddiodd y gwerthusiad ymagwedd ansoddol at gasglu data, i goladu gwybodaeth gan y rhanddeiliaid allweddol, gan fyfyrio ar eu profiad o gymryd rhan ym mhroses C4C a'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y gydweithrediaeth. Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig o bell/ar-lein gan TW, CW ac LH i gael safbwyntiau'r grwpiau canlynol:

- Gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol a oedd yn ymwneud â datblygu ymagwedd C4C Cymru
- Y tîm cyflawni, gan gynnwys hwyluswyr Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru a Q Lab Cymru a gynorthwyodd Grŵp Goruchwylio'r Prosiect
- Uwch arweinwyr ac aelodau ehangach cydweithrediaeth CTMHHP

Cynhaliwyd cyfweliadau ar dair adeg wahanol: yn gynnar yn ystod y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau (Cam 1) (Ionawr 2022), yn ystod y cam ôl-weithredu (Cam 2) (Mai 2022) ac yn ystod y cam dilynol chwe mis (Cam 3) (Hydref/Tachwedd 2022). Gweler Ffigur 2 i weld camau'r gwerthusiad.

**Ffigur 2: Camau'r gwerthusiad**




# 5 Casglu data a dadansoddiadau

## 5.1 Ystyriaethau moesegol

Ymgynghorwyd â thîm Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru i bennu a oedd angen i'r gwerthusiad gael cymeradwyaeth foesegol a chymeradwyaeth ymchwil a datblygu'r GIG. Ni ystyriwyd bod y gwerthusiad yn ymchwil gyffredinoladwy, felly nid oedd angen cymeradwyaeth.

Cwblhaodd y cyfranogwyr Ddalen Gwybodaeth i Gyfranogwyr (gweler Atodiad Ychwanegol Dau) a ffurflen gydsynio (gweler Atodiad Ychwanegol Tri) cyn y cyfweliad, yr oedd y ddwy ohonynt ar gael yn ddwyieithog. Roedd cyfle i'r cyfranogwyr ofyn unrhyw gwestiynau ychwanegol ar ddechrau'r cyfweliad hefyd. Rhoddodd y ffurflen gydsynio wybodaeth am faterion fel cyfrinachedd, aros yn ddienw, cofnodi a thrawsgrifio, opsiynau tynnu'n ôl a chydsyniad ar sail gwybodaeth.

## 5.2 Recriwtio cyfranogwyr

Anfonwyd neges e-bost recriwtio ddwyieithog (gweler Atodiad Ychwanegol Pedwar) at 23 o ddarpar gyfranogwyr, a oedd yn cynrychioli safbwyntiau amrywiol ar draws y tri grŵp diddordeb (fel y'u rhestrir yn Adran 4 a Thabl 1). Y 23 darpar gyfranogwr oedd y rhai hynny a gymerodd ran yn y gydweithrediaeth, aelodau grŵp goruchwylio'r prosiect, hwylusydd

ychwanegol ac arweinwyr Q Lab Cymru. Cymerodd cyfanswm o 18 o gyfranogwyr (18%) ran mewn cyfweliadau Cam 1. Wedi hynny, cymerodd 12 o gyfranogwyr (52%) ran mewn cyfweliadau Cam 2 a chymerodd dau gyfranogwr (50%) ran mewn cyfweliadau Cam 3 (gweler Tabl 1 am ddadansoddiad manwl o'r cyfranogwyr).

Gallai'r gyfradd ymateb isel ymhlith y gydweithrediaeth ehangach yng Ngham 2 fod o ganlyniad i raddau'r cyfranogiad yn y cam gweithredu, a gallai'r gyfradd ymateb isel ymhlith uwch arweinwyr yng Ngham 3 fod o ganlyniad i bwysau amser.

**Tabl 1: Dadansoddiad o'r cyfranogwyr**

| **Cam** | **Cyfanswm (nifer)** | **Grŵp goruchwylio'r prosiect (nifer)** | **Uwch arweinwyr (nifer)** | **Y gydweithrediaeth ehangach (nifer)** |
|---|---|---|---|---|
| Cam 1: Dechrau'r cam gweithredu | 18 | 8 | 4 | 6 |
| Cam 2: Cam ôl-weithredu | 12 | 6 | 3 | 3 |
| Cam 3: Cam dilynol 6 mis | 2 | * | 2 | * |

* Amherthnasol

## 5.3 Cyfweliadau lled-strwythuredig

Lluniwyd amserlenni cyfweld gan CHE a CH a oedd wedi'u teilwra i'r gwahanol grwpiau o gyfranogwyr (gweler Atodiad Ychwanegol Pump). Llywiwyd meysydd y cwestiynau gan y ddamcaniaeth newid. Roedd cyfweliadau Cam 1 yn archwilio gwerth sesiynau datblygu Grŵp Goruchwylio'r Prosiect, dynameg y grŵp ac effeithiolrwydd cydweithredu, a dealltwriaeth o ymagwedd C4C a'i haddasrwydd. Roedd cyfweliadau Cam 2 yn archwilio cyflawni'r ymagwedd, effaith yr ymagwedd, cynaliadwyedd, yn asesu gwerth yr ymagwedd, ac yn ceisio adborth ar ddogfennau allweddol y prosiect (Damcaniaeth Newid, Elfennau Craidd, Cylch Oes). Roedd cyfweliadau Cam 3 yn archwilio cynaliadwyedd, y canlyniadau a gyflawnwyd ac effaith ehangach y gydweithrediaeth dynamics and effectiveness of collaboration, and understanding and suitability of the C4C approach.

Roedd pob cyfweliad lled-strwythuredig wedi para rhwng 30 a 60 munud ac fe'u cynhaliwyd o bell gan ddefnyddio Microsoft Teams. Gyda chaniatâd, recordiwyd y cyfweliadau a lawrlwythwyd trawsgrifiadau o Microsoft Teams.

Cynhaliwyd cyfweliadau Cam 1 gan TW, cynhaliwyd cyfweliadau Cam 2 gan LH a chynhaliwyd cyfweliadau Cam 3 gan CW. Yn ogystal, cynhaliwyd un cyfweliad Cam 1 a Cham 2 gan CP yn dilyn cais gan un cyfranogwr i gwblhau'r cyfweliadau yn Gymraeg. Cyfieithwyd trawsgrifiadau Cymraeg i'r Saesneg gan gyfieithydd allanol cyn eu dadansoddi.

Gwiriwyd cywirdeb yr holl drawsgrifiadau a lawrlwythwyd o Microsoft Teams gan aelodau o dîm gweinyddol yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, a lle'r oedd gwallau sylweddol, cywirwyd y rhain trwy wrando ar y recordiadau gwreiddiol. Ar ôl i'r trawsgrifiadau gael eu cadarnhau, fe'u gwnaed yn ddienw ac fe'u dadansoddwyd gan ddefnyddio'r ymagwedd a amlinellwyd yn adran 4.4. Dilëwyd y recordiadau wedi hynny.

## 5.4 Dadansoddiadau data

Datblygwyd ymagwedd Dadansoddiad Thematig gyda chymorth gan LH a chydweithwyr eraill yn yr is-adran Ymchwil a Gwerthuso yng Nghyfarwyddiaeth Wybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru. Defnyddiodd yr ymagwedd yr elfennau anwythol o fersiwn atgyrchol Braun a Clark o Ddadansoddiad Thematig[3] a dull diddwythol y Dadansoddiad Fframwaith a ddatblygwyd gan Ritchie a Spencer[4].

Yn ystod y cam anwythol, deilliwyd 'darpar themâu' yn y cyfweliadau Cam 1 ac fe'u defnyddiwyd i lunio fframwaith codio rhagarweiniol. Yna, defnyddiwyd ymagwedd ddiddwythol a chafodd y fframwaith codio rhagarweiniol ei ddatblygu a'i gymhwyso'n systematig i'r data, ochr yn ochr ag ymagwedd wedi'i hysgogi gan ddata lle y gallai 'codau rhydd' newydd a oedd yn dod i'r amlwg o'r data gael eu cynhyrchu hefyd.

Dewiswyd ymagwedd fframwaith am nifer o resymau ac fe'i llywiwyd gan Gale et al. (2013). Yn gyntaf, mae'n darparu camau clir i'w dilyn ac yn cynhyrchu allbynnau strwythuredig o ddata. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r gwerthusiad hwn oherwydd bod ymchwilwyr ar wahân wedi dadansoddi data yn ystod y gwahanol gamau. Dewiswyd y model fframwaith hefyd o ganlyniad i'r allbynnau data cymharol unffurf, h.y. roedd y data'n ymwneud ag un pwnc cyffredinol yn bennaf, felly roedd yn gymharol hawdd ei gategoreiddio. Mae'r ymagwedd fframwaith yn caniatáu ar gyfer dadansoddi setiau mawr o ddata, ac mae gwerthuso'n ceisio cael trosolwg disgrifiadol, cyfannol o'r set ddata gyfan. Yn olaf, dewiswyd yr ymagwedd oherwydd nid yw'n cyd-fynd yn gaeth â safbwynt gwybodegol penodol. Felly, mae'n caniatáu ar gyfer hyblygrwydd a'r gallu i addasu rhwng cysyniadau damcaniaethol anwythol a diddwythol. Amlinellir y broses hon yn fanylach yn 5.4.1 - 5.4.3.

### 5.4.1 Datblygu fframwaith codio

O'r adolygiad cychwynnol o holl drawsgrifiadau Cam 1, datblygodd TW ddarpar themâu a lywiodd y broses barhaus o gyflwyno'r prosiect peilot. Bwydwyd hyn yn ôl i Grŵp Goruchwylio'r Prosiect er mwyn teilwra ymagwedd C4C ymhellach i anghenion y gydweithrediaeth. Wedi hynny, datblygodd TW themâu ac is-themâu yn MIRO o adolygiad manylach o drawsgrifiadau Cam 1 a llywiodd y rhain y fframwaith codio cyfweliadau rhagarweiniol a ddatblygwyd gan CHE.

### 5.4.2 Sicrhau ansawdd y fframwaith codio

Cynhaliwyd prawf dibynadwyedd rhyng-godiwr i brofi cadernid y fframwaith rhagarweiniol a'r gallu i'w ailadrodd. Roedd aelod o'r Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru nad oedd yn ymwneud â datblygu'r dull gwerthuso na'r amserlenni cyfweld, ynghyd â TW, wedi codio pedwar trawsgrifiad yn annibynnol (sampl o ychydig dros 20% o'r cyfweliadau Cam 1) gan ddefnyddio'r fframwaith. Trafodwyd a chofnodwyd anghysondebau o ran codio. Lle'r oedd angen, gwnaed gwelliannau i'r fframwaith rhagarweiniol a chytunwyd ar fframwaith cychwynnol (gweler Atodiad Ychwanegol Chwech).

### 5.4.3 Cymhwyso'r fframwaith codio i drawsgrifiadau

Mewngludodd TW y fframwaith codio cychwynnol, ynghyd â holl ddiffiniadau'r codau, i feddalwedd dadansoddi data ansoddol drwy gymorth cyfrifiadur (ATLAS.ti Fersiwn 22) lle y codiwyd yr holl drawsgrifiadau. Cymhwyswyd codau o'r fframwaith i'r dyfyniadau trawsgrifiad priodol. Roedd y broses godio'n ddynamig, gyda chodau'n cael eu haddasu a'u creu lle y bo'n briodol gan TW. Cofnodwyd newidiadau i godau presennol a chodau newydd ar y fframwaith ac fe'u harddangoswyd mewn lliw gwahanol i ddangos eu bod yn ychwanegiadau diweddarach.

Cafodd trawsgrifiadau Cam 2 a Cham 3 eu codio yn ATLAS hefyd gan LH a CW, yn y drefn honno, a chynhyrchwyd adroddiadau cryno.

# 6 Canlyniadau

Cyflwynir y canfyddiadau o bob cam cyfweld isod, sy'n crynhoi'r myfyrdodau ar i) y broses o gymryd rhan ym mhrosiect peilot C4C a ii) y canlyniadau a gyflawnwyd gan y gydweithrediaeth.

Crynhoir themâu trosfwaol allweddol a amlygwyd yn ystod y Dadansoddiad Thematig yn nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Themâu ac is-themâu dadansoddiad thematig**

| Thema | Is-themâu |
|---|---|
| Galluogwyr a rhwystrau rhag gweithredu | • Grŵp Goruchwylio Prosiect amlasiantaethol<br>• Sgiliau hwyluswyr<br>• Offeryn cydweithredu ar-lein<br>• Cydweithio/dynameg y grŵp<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ymagwedd<br>• Eglurder rolau<br>• Amgylchedd cyflawni – e.e. rhithwir<br>• Gwerth canfyddedig yr ymagwedd |
| Addasrwydd yr ymagwedd | • Maint y gydweithrediaeth a natur y broblem<br>• Cynhyrchu datrysiad<br>• Graddau hwyluso<br>• Cynnwys y defnyddiwr terfynol<br>• Strwythur o gymharu â hyblygrwydd<br>• Angenrheidrwydd ymagwedd C4C<br>• Cyflawni'r ymagwedd |
| Effeithiolrwydd cydweithredu | • Amser paratoi<br>• Cynhyrchu syniadau, arloesi a datrys problemau<br>• Ymddiriedaeth i fynegi barn<br>• Llais aelodau'r gydweithrediaeth<br>• Ffocws a diben<br>• Priodoldeb nodau<br>• Cynaliadwyedd<br>• Capasiti ac ymrwymiad i gyflawni |
| Datblygu'r prosiect | • Gwerth ac effeithiolrwydd y gweithdy dylunio Q Lab gyda Grŵp Goruchwylio'r Prosiect<br>• Gwerth y cam paratoi |
| Myfyrio a dysgu | • Sesiynau hyfforddi<br>• Newid ymarfer |
| Amrywiol | |

## 6.1 Myfyrdodau ar y broses C4C

Nod yr adran hon yw archwilio i ba raddau y cyflawnwyd yr ymagwedd a amlinellir yng nglasbrint C4C Cymru fel y bwriadwyd gan y gydweithrediaeth CTMHHP, yn ogystal â deall ymatebion y cyfranogwyr i'r ymagwedd.

### 6.1.1 Cyfweliadau Cam 1 (dechrau'r cam gweithredu)

Amlygodd dadansoddiad o gyfweliadau Cam 1 bum thema allweddol, a gyflwynir yn fanylach yn yr adran hon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Galluogwyr a rhwystrau rhag gweithredu
- Addasrwydd yr ymagwedd
- Effeithiolrwydd cydweithredu
- Datblygu'r prosiect
- Myfyrio a dysgu

### *Galluogwyr a rhwystrau rhag gweithredu*

Canfu'r cyfranogwyr o gydweithrediaeth CTMHHP fod yr hwyluso allanol yn alluogwr gwerthfawr wrth sbarduno cynnydd ac yn gweithredu fel cyfryngwr diduedd. Dywedwyd bod yr hwyluswyr yn fedrus, yn broffesiynol, yn gynhwysol ac yn hyderus.

*"Mae'n effeithiol iawn mewn gwirionedd. Mae'n ymagwedd garedig, ysgafn a thosturiol iawn tuag at arweinyddiaeth. Rwy'n credu… bod gwaith rhwng partneriaid yn gallu mynd ychydig bach yn wleidyddol neu danbaid."*
*(Aelod ehangach)*

Rhoddwyd adborth rhagorol ynglŷn â'r offer cydweithio ar-lein, fel MIRO, a ddefnyddiwyd gan yr hwyluswyr yn y cam gweithredu a dywedwyd bod y rhain yn ddefnyddiol, yn ddiddorol ac yn gynhwysol er eu bod yn newydd i lawer o'r cyfranogwyr.

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y gydweithrediaeth yn cydweithio'n dda at ei gilydd, ond sylwyd ar rai tensiynau oherwydd teimlai rhai fod iechyd yn dominyddu'r bartneriaeth. Yn yr un modd â phob math o weithio ar y cyd, roedd yn heriol rheoli gwahanol bersonoliaethau a rhai o'r perthnasoedd a oedd eisoes yn bodoli rhwng uwch arweinwyr.

*"Dydyn nhw ddim yn dîm, wyddoch chi, oherwydd hierarchaeth ydyw, ond maen nhw'n dîm oherwydd fe ddewison nhw ddod at ei gilydd. Ac mae hynny'n bwerus iawn. Maen nhw'n cydweithio'n dda, maen nhw'n ymddiried yn ei gilydd. Wyddoch chi…ond mae rhai pobl yn dal i ddod o hyd i'w llais."*
*(Hwylusydd)*

Roedd gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn y gydweithrediaeth, yn enwedig uwch arweinwyr, lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r prosiect a'r ymagwedd. Fodd bynnag, roedd llai o eglurder ynglŷn â'r ymagwedd a'i gwerth ar gyfer aelodau ehangach y gydweithrediaeth. Awgrymwyd y dylid neilltuo mwy o amser ar ddechrau'r broses er mwyn sicrhau aliniad. Amlygodd y cyfranogwyr hefyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd eglurder rolau, oherwydd bod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â rolau aelodau'r gydweithrediaeth.

*"Rwy'n credu efallai mai un o'r pethau nad oedd cystal am y gweithdy hwnnw oedd y cyflwyniadau, oherwydd doedden ni ddim wedi gweithio gyda'n gilydd. Rwy'n credu y dylid bod wedi treulio ychydig yn fwy o amser yn gosod y cyd-destun, yn gwneud yn siŵr bod pawb yn adnabod ei gilydd ac yn gwybod beth oedd eu rolau ei gilydd, a phethau torri'r garw fel yna." (Aelod, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Adroddwyd am rai heriau yn ymwenud â chydweithio'n rhithwir ac roedd rhai'n teimlo efallai y byddai'r ymagwedd wedi bod yn fwy effeithiol wyneb yn wyneb.

*"Rwy'n credu, ac efallai mai fi sydd ychydig yn hen ffasiwn, y byddai wedi bod yn braf gwneud rhywfaint o waith wyneb yn wyneb yn hytrach na thrwy Teams yn unig." (Uwch arweinydd)*

Yn olaf, roedd cyfranogwyr Grŵp Goruchwylio'r Prosiect a oedd yn ymwneud â dylunio a chyflwyno ymagwedd C4C Cymru o'r farn bod y grŵp yn ddefnyddiol wrth ddarparu safbwyntiau a datrysiadau newydd yn seiliedig ar wahanol arbenigedd a gwybodaeth.

*"Fe allwch chi fynd ychydig yn ddall trwy edrych trwy un lens yn unig, felly mae'n beth da iawn pan fydd gennych chi bobl â gwahanol safbwyntiau oherwydd byddan nhw'n eich herio chi i feddwl."*
*(Aelod, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

### *Addasrwydd yr ymagwedd*

Nododd rhai cyfranogwyr o Grŵp Goruchwylio'r Prosiect nad oedd rhai agweddau ar yr ymagwedd yn cael eu cyflawni fel y bwriadwyd yn wreiddiol gan y glasbrint. Yn arbennig, mae ymagwedd C4C Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd diffinio problem ac ystyried a phrofi ystod o ddatrysiadau. Roedd yn amlwg yn gynnar yn y cam paratoi bod gan yr uwch arweinwyr syniad clir o'r datrysiad yr oeddent eisiau ei weithredu eisoes.

*"…maen nhw wedi neidio i ddatrysiad ychydig yn rhy fuan a dweud, 'dyma beth mae angen i ni weithio arno', yn hytrach na dweud, sut gallwn ni wella…" (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Yn ogystal, roedd nod y gydweithrediaeth, sef rhannu data, yn heriol yn dechnegol. O gymharu, roedd y dystiolaeth a oedd wedi llywio ymagwedd C4C Cymru wedi'i seilio ar heriau amlasiantaethol a oedd yn canolbwyntio ar wella gwasanaeth neu lwybr gwasanaeth.

*"Maen nhw'n aml yn ymwneud â llawer mwy o bobl, llawer mwy o is-grwpiau, felly mae hyn yn eithaf bach, ac rwy'n credu bod hynny'n beth da mewn rhai ffyrdd oherwydd ein bod ni eisiau treialu'r ymagwedd. Fodd*

*bynnag, ar y llaw arall, ydyn ni wir yn profi'r ymagwedd ar gyfer yr hyn y'i dyluniwyd ar ei gyfer?"*
*(Aelod, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Codwyd cwestiynau hefyd ynglŷn ag addasrwydd y model oherwydd bod y defnyddwyr terfynol yn fewnol yn hytrach nag yn y gymuned ehangach.

Mynegodd rhai uwch arweinwyr bryderon bod y sesiynau wedi'u gor-hwyluso braidd ac nad oedd digon o hyblygrwydd ynddynt i aelodau'r gydweithrediaeth 'ddilyn eu greddf'. Cytunwyd yn gyffredinol bod angen trafod gofynion hwyluso yn fwy yn ystod y cam paratoi.

*"Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngor-hwyluso weithiau. Mae'n teimlo fel bod angen i mi gael ychydig o le i anadlu yma ac ychydig o le i feddwl… Mae'n teimlo fel bod pob munud o'r amser rydyn ni gyda'n gilydd wedi'i threfnu a'n bod yn cael ein rheoli gan y cloc yn hytrach na dilyn ein greddf ar adegau os ydyn ni'n mynd i rywle defnyddiol." (Uwch arweinydd)*

Awgrymwyd bod angen i'r ymagwedd fod yn fwy hyblyg, oherwydd bod ambell gyfranogwr yn teimlo bod yr ymagwedd C4C Cymru a amlinellwyd yn y glasbrint yn rhy gaeth.

*"Efallai bod angen nodi yn y glasbrint mai rhyw fath o dempled yw hyn…Gellir addasu'r pethau yma, bron fel dewislen." (Aelod, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Heriodd hwyluswyr briodoldeb ac angenrheidrwydd ymagwedd C4C ac roeddent yn teimlo y gallai newid fod wedi digwydd heb ymagwedd strwythuredig wedi'i llywio gan dystiolaeth. Fodd bynnag, mae hwyluswyr hefyd yn nodi bod yr ymagwedd yn wych am ddod â phobl ynghyd, a helpu'r aelodau i ganolbwyntio ar gyflawni'r nod a osodwyd ar ddechrau'r broses.

*"Dydw i ddim yn credu yr oedd angen i'r grŵp hwn gael C4C i greu'r platfform hwn. Ar un llaw, maen nhw wedi bod yn siarad am ei wneud ers tro ond heb ei gyflawni, felly efallai bod y strwythur 100 o ddiwrnodau yma'n golygu bod mwy o gymhelliad. Ond y gwir yw, yn fy marn i, eu bod nhw'n gwybod beth mae angen iddyn nhw ei wneud." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

*"Mae'n teimlo fel ein bod ni wedi dod yn agosach at rywbeth ystyrlon nag erioed o'r blaen, mewn cyfnod eithaf byr. Felly, o gymharu â'm profiadau eraill, mae'n gadarnhaol iawn hyd yma. Dydw i ddim yn gwybod a fydd yn chwalu'r holl rwystrau rydyn ni wedi'u hwynebu o'r blaen, ond mae'n sicr, yn fy marn i, wedi mynd â ni ymhellach i lawr y llwybr." (Uwch arweinydd)*

### *Effeithiolrwydd cydweithredu*

Disgrifiwyd y gydweithrediaeth fel man diogel lle’r oedd safbwyntiau’n cael eu parchu a lle’r oedd yr hwyluswyr yn gwneud i bobl deimlo’n gyfforddus. Roedd pob aelod o’r gydweithrediaeth yn teimlo eu bod yn cael cyfle i rannu eu safbwyntiau. Fodd bynnag, roedd trafodaethau ar wahân yn cael eu cynnal y tu allan i’r gweithdai a drefnwyd hefyd, lle’r oedd pobl yn teimlo’n fwy diogel i leisio’u barn.

*“Efallai nad oedden nhw wedi achub ar y cyfle hwnnw i’r un graddau, ond nid yw hynny’n golygu eu bod wedi’u tangynrychioli neu nad yw eu safbwyntiau wedi cael eu hystyried… Roedd yn fforwm agored, yn sicr.” (Uwch arweinydd)*

*“Ie, erbyn diwedd y gweithdy, roedd cytundeb. Ond rydyn ni i gyd yn gwybod y bu rhywfaint o fynd yn ôl ac ymlaen trwy e-bost wedi hynny. Y tu ôl i’r llenni, mae pobl wedi gallu dweud pethau nad oedden nhw’n teimlo’n gyfforddus yn eu dweud yn y gweithdy.” (Hwylusydd)*

Yn gyffredinol, teimlwyd bod ffocws i’r gydweithrediaeth, bod y gwaith yn effeithiol ac yn gwneud yn dda, at ei gilydd, drwy gydol y cam paratoi a’r cam dechrau gweithredu. Roedd rhai cyfranogwyr, yn enwedig hwyluswyr, yn teimlo bod y gydweithrediaeth wedi profi gostyngiad mewn cymhelliad a bod pobl yn ymgysylltu llai erbyn gweithdy Diwrnod 25.

*“Ac ni allai rai o’r gydweithrediaeth ehangach ddod ychwaith. A bu seibiant dros y Nadolig. Felly, erbyn diwrnod 25, roedd pobl wedi colli pythefnos, felly mewn hanner yr amser hwnnw, ac mae ’na syrthni, doedd pobl ddim yn ymgysylltu llawer, fe ddywedon nhw ‘na, dydw i ddim eisiau gwneud hynny’, pan awgrymon ni rai technegau hwyluso.” (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio’r Prosiect)*

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod angen mwy o amser paratoi a rhybudd rhwng cyfarfodydd, a bod angen anfon deunyddiau a phwyntiau trafod cyn cyfarfodydd. Dadleuodd rhai uwch arweinwyr nad oedd y prosiect yn meithrin cynhyrchu syniadau, creadigrwydd nac arloesedd, yn rhannol o ganlyniad i or-hwyluso a datrysiad a bennwyd o flaen llaw. Er gwaethaf hyn, roedd yr aelodau ehangach yn credu, i ryw raddau, bod yr ymagwedd yn meithrin syniadau newydd ac yn cynyddu datrys problemau.

*“Oherwydd bod pawb gyda’i gilydd nawr, i gyd yn gweithio’n strategol…mae hynny’n haws i ddatrys problemau.” (Aelod ehangach)*

Oherwydd bod nod y gellid ei gyflawni yn y graddfeydd amser wedi cael ei ddewis (er mwyn osgoi ‘methiant’), mynegodd rhai bryderon nad oedd y nod yn ddigon ymestynnol. Ar y llaw arall, mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon bod y nod yn gymharol uchelgeisiol, o ystyried graddfa amser y prosiect.

Pwysleisiodd cyfranogwyr o Grŵp Goruchwylio’r Prosiect ac uwch arweinwyr bwysigrwydd sicrhau cydweithredu parhaus, ar ôl i’r cam gweithredu orffen. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn credu y gellid bod wedi trafod y strategaeth ymadael yn fwy trwyadl.

*“[…] sut rydyn ni’n mynd i ddatblygu cysyniad yr hyn y dechreuon ni yn y prosiect wrth symud ymlaen, oherwydd ei bod yn allweddol, mae’n rhaid i ni. Mae’n rhaid i ni siarad â’n gilydd. Mae’n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o gadw’r dull hwn i fynd.” (Uwch arweinydd)*

Roedd y gydweithrediaeth yn wirioneddol ymrwymedig a brwdfrydig, ond roedd rhywfaint o bryder ynglŷn ag adnoddau a phwy sy’n mynd i wneud beth. Roedd yn anodd cydbwyso ymrwymiadau eraill a theimlwyd bod absenoldeb o blith y tri grŵp (uwch arweinwyr, y gydweithrediaeth ehangach a Grŵp Goruchwylio’r Prosiect) yn ystod gweithdai’r cam gweithredu, yn enwedig o blith uwch arweinwyr, yn rhwystr posibl rhag cynnal cynnydd.

### *Datblygu’r prosiect*

Rhoddodd cyfranogwyr Grŵp Goruchwylio’r Prosiect adborth cymysg ar sesiynau dylunio Q Lab Cymru. Roedd rhai’n teimlo eu bod wedi dysgu llawer ac yn credu bod y sesiynau’n annog y grŵp i feddwl mewn ffordd newydd, gyda chwestiynau ymchwilgar yn herio tybiaethau. Dywedodd eraill fod y sesiynau’n hir, yn brin o gyd-destun ac weithiau’n anodd eu dilyn.

*“Rwy’n cofio meddwl ei bod yn hir. Efallai roedd yn dair awr. Dydw i ddim yn cofio. Rwy’n credu petaen ni wedi gallu darllen ychydig yn fwy o flaen llaw, efallai gwneud ychydig bach o flaen llaw, i leihau’r amser ar y sgrin, byddai hynny wedi bod yn ddefnyddiol.” (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio’r Prosiect)*

*“Ond yn gyffredinol, rwy’n credu y buon nhw’n ddefnyddiol iawn wrth herio ein ffordd o feddwl.” (Aelod, Grŵp Goruchwylio’r Prosiect)*

Ystyriwyd bod y ddau weithdy paratoi gydag uwch arweinwyr y gydweithrediaeth wedi cyflawni’r rhan fwyaf o’r hyn yr oedd y cam paratoi yn bwriadu ei wneud. Roedd y gweithdai’n effeithiol wrth gael pawb at ei gilydd, sicrhau bod pawb yn deall y nodau a dod i gytundeb ar y cwestiwn ymchwil.

### *Myfyrio a dysgu*

Cafodd y sesiynau hyfforddi ymateb cymysg gan uwch arweinwyr. Roedd rhai’n teimlo eu bod yn bleserus, yn ddefnyddiol ac yn werth chweil, tra bod eraill yn dadlau nad oeddent yn effeithiol nac yn ddefnyddiol. Dadleuodd yr

hwyluswyr fod y sesiynau hyfforddi un i un yn hollbwysig er mwyn dysgu am rwystredigaethau a phersonoliaethau yn y grŵp.

Ar yr adeg hon o'r gwerthusiad, ni chrybwyllodd y cyfranogwyr newid ymarfer o ganlyniad i'r gydweithrediaeth.

### 6.1.2 Cyfweliadau Cam 2 (cam ôl-weithredu)

Amlygodd dadansoddiad o gyfweliadau Cam 2 bum thema drosfwaol allweddol, a gyflwynir yn fanylach yn yr adran isod. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Galluogwyr a rhwystrau rhag gweithredu
    - Cydweithio ac eglurder rolau
    - Gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ymagwedd
    - Yr amgylchedd cyflwyno
    - Gwerth canfyddedig yr ymagwedd
- Addasrwydd yr ymagwedd
    - Glasbrint, elfennau craidd a chylch oes
    - Hwyluso
    - Beth oedd wedi gweithio a heriau
- Effeithiolrwydd cydweithredu
    - Cynaliadwyedd
    - Cynaliadwyedd cyflawni'r ymagwedd
- Datblygu'r prosiect
- Myfyrio a dysgu
    - Damcaniaeth newid
    - Elfennau craidd

#### *Galluogwyr a rhwystrau rhag gweithredu*

*Cydweithio ac eglurder rolau*

Roedd yr holl gyfranogwyr yn cydnabod gwerth gwaith aml-sector ac yn teimlo bod ymagwedd C4C wedi eu galluogi i gydweithio'n fwy effeithiol. Roedd yr aelodau'n teimlo ei bod yn bartneriaeth go iawn a bod cymryd rhan yn y gydweithrediaeth hon wedi cryfhau perthnasoedd a chreu cysylltiadau allweddol ar draws y sectorau. Amlygodd hwyluswyr natur agored y grŵp ac roeddent yn credu bod y sesiynau un i un gyda'r arweinwyr wedi helpu dynameg gyffredinol y grŵp.

*"Roedd yn teimlo fel partneriaeth go iawn. Doedden ni ddim yn mynychu oherwydd ein bod yn teimlo bod rhaid i ni, wyddoch chi. Roedden ni i gyd yn bobl eithaf ymroddedig. Roedd yn rhywbeth roedden ni'n teimlo ei fod yn berthnasol i'n gwaith. Roedden ni'n gweld ei bwrpas." (Uwch arweinydd)*

Amlygwyd gwahaniaeth rhwng y gweithgor craidd a oedd yn cynnwys yr uwch arweinwyr a chyfranogwyr ehangach a oedd yn cael eu cyfethol i'r gydweithrediaeth. Er bod y glasbrint yn amlinellu'r angen am grŵp uwch arweinwyr, mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd dosbarthu arweinyddiaeth ar draws y gydweithrediaeth ac i uwch arweinwyr ddefnyddio arddull arwain addasol. Daeth i'r amlwg fod rhai aelodau o'r grŵp ehangach yn teimlo nad oedd angen eu cyfraniad o reidrwydd, ac roedd cyfranogwyr yn teimlo bod tensiwn rhwng proses cyflawni'r cynnyrch a datblygu'r gymuned.

*"Rwy'n credu bod y grŵp craidd wedi gweithio'n arbennig o dda. Rwy'n credu bod gwahaniaeth rhwng y grŵp craidd a'r cyfranogwyr ehangach, a oedd yn ddiddorol. Ac, unwaith eto, mae'n ddiddorol os edrychwch chi ar sut mae Communities4Change i fod i gael ei sefydlu, ni ddylai fod un arweinydd." (Uwch arweinydd)*

Gan fyfyrio ar i ba raddau yr oedd cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth addasol wedi dod i'r amlwg, roedd yr hwyluswyr o'r farn y gallai aelodau ehangach fod wedi cyfranogi mwy petaent wedi cael eu cynnwys yn gynharach, oherwydd bod uwch arweinwyr wedi ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r llwyth gwaith.

Roedd y ffaith bod aelodau ehangach wedi cael eu cynnwys ar adegau gwahanol yn ystod y cam gweithredu wedi'i gwneud yn anodd egluro eu rôl a'u cyfraniad. Roedd y gydweithrediaeth yn teimlo y dylai aelodau allweddol o'r grŵp ehangach fod wedi cael eu hamlygu a'u cynnwys yn gynharach yn y broses er mwyn sicrhau ymgysylltiad a llinellau amser cyflawnadwy ar gyfer cyflawni.

*"Y peth cyntaf yw pwysigrwydd sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol yn bresennol. Felly, os ydych chi eisiau rhannu data ac i'r bwrdd iechyd eu dadansoddi, mae angen i'r bobl ym maes rheoli gwybodaeth a fydd yn delio â'r broses honno fod yn y cyfarfod. Fel arall, fe allai eich cyflawniadau fod yn fyr iawn o'r nod ac fe allai eich llinellau amser fod yn anghynaliadwy." (Aelod ehangach)*

*Gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ymagwedd*

Er bod hwyluswyr o'r farn bod y gydweithrediaeth wedi ymrwymo i'r datrysiad cytunedig, roedd ymdeimlad bod y gydweithrediaeth ehangach, ac weithiau uwch arweinwyr, yn ansicr beth oeddent wedi ymrwymo iddo mewn gwirionedd.

Roedd yn amlwg bod angen neilltuo mwy o amser i'r cam paratoi er mwyn cynyddu ymrwymiad i'r ymagwedd a sicrhau bod pawb yn llwyr ddeall y broses a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Roedd diffyg dealltwriaeth gan uwch arweinwyr yn arwain at ddiffyg ymgysylltiad, yn enwedig yn ystod y cyfarfod cerrig milltir allweddol, a oedd yn ei gwneud yn anodd i'r gydweithrediaeth symud yr agenda ymlaen.

*"Rwy'n credu ei fod yn y cam paratoi. Roedd angen iddo gael ei wahanu. Felly, sesiwn ar beth yn union yw'r ymagwedd 100 o ddiwrnodau, beth yw'r elfennau, beth yw'r broses, beth a ddisgwylir, gan felly gynyddu ymrwymiad i'r broses. Yna, rwy'n credu bod angen y ffrwd arall hefyd, sy'n ymwneud â datblygu'r cydweithrediad hwnnw ar yr ochr perthnasoedd." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

*Yr amgylchedd cyflwyno*

Roedd yr ymagwedd a amlinellwyd yn y glasbrint wedi'i dylunio'n wreiddiol ar gyfer cyflwyno wyneb yn wyneb, ond roedd cyflwyno o bell wedi arwain at fanteision ac anfanteision.

Roedd hwyluso ar-lein yn golygu bod angen addasu a newid sut i gynllunio deunydd, cynnwys a dulliau cyflwyno. Roedd angen set wahanol o sgiliau hwyluso, fel sefydlu ymddygiad a rheolau sylfaenol clir ynglŷn â chyfraniadau mewn man rhithwir. Roedd y gydweithrediaeth o'r farn bod yr hwyluswyr wedi dehongli arwyddion pobl yn yr ystafell rithwir yn fedrus ac wedi sicrhau bod pawb yn cyfrannu.

*"Rwy'n credu bod pobl wedi dod i'r arfer â chael eu hwyluso, oherwydd mae'n wahanol i gyrraedd cyfarfod a siarad. […] Pawb yn cymryd ei dro i siarad. Nawr dy dro di ydyw. Roedd gwahanol signalau dwylo a ddefnyddion ni i gyfrannu at adegau penodol, er enghraifft." (Uwch arweinydd).*

Ystyriwyd bod defnyddio MIRO yn werthfawr, er bod y cyfranogwyr o'r farn y byddai wedi bod yn ddefnyddiol gwybod pa adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio o flaen llaw. Roedd MIRO yn newydd i fwyafrif cyfranogwyr y gydweithrediaeth, ond roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi ymgyfarwyddo â'r rhaglen yn gyflym. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod byrddau rhyngweithiol MIRO yn ddefnyddiol ar gyfer:

- Dod â phopeth at ei gilydd mewn un man
- Cadw dogfennau prosiect allweddol a chynnydd mewn un man
- Galluogi cydweithio rhithwir, byw
- Amlinellu rolau a chyfrifoldebau pawb yn erbyn y ffrwd waith
- Gwybod pwy i ymgysylltu ag ef

Awgrymodd y cyfranogwyr gynnwys trafodaeth â'r holl aelodau ynglŷn â disgwyliadau hwyluso ar-lein ar ddechrau'r broses. Byddai hefyd yn ddefnyddiol ychwanegu adran ar gyflwyno ymagwedd C4C ar-lein yn y glasbrint.

Cydnabuwyd rhai heriau yn gysylltiedig â hwyluso ar-lein, gan gynnwys cyfyngiadau defnyddio MS Teams i greu cysylltiadau a rhwydweithio. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo efallai y byddai model hybrid yn gweithio'n dda i gyflwyno'r ymagwedd hon.

*"O ran rhwydweithio, nid yw MS Teams yn addas iawn i hynny. Oherwydd dydych chi ddim yn cael y rhan honno o'r sgwrs ar y dechrau tra'ch bod yn aros i bobl gyrraedd ystafell ac yna mae rhywun yn adnabod rhywun arall ac rydych chi'n dechrau sgwrs wahanol." (Aelod ehangach)*

*Gwerth canfyddedig yr ymagwedd*

Roedd yr aelodau'n gadarnhaol iawn ynglŷn â'r ymagwedd, at ei gilydd, ac yn teimlo bod y strwythur wedi gweithio'n dda, gan alluogi ymgysylltu a chryfhau perthnasoedd. Roedd y cyfranogwyr wedi'u hysbrydoli i weithredu'r hyn a ddysgwyd, o ran ffyrdd o weithio, yn ogystal â mabwysiadu rhai o'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn ystod y broses, fel defnyddio MIRO fel offeryn cydweithio ar-lein.

At hynny, mae'r ymagwedd wedi bod yn effeithiol wrth ddod â phobl at ei gilydd mewn amgylchedd gwaith aml-sector, gan alluogi'r cyfranogwyr i ddod o hyd i ddatrysiad i broblem gymhleth. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi hwyluso allanol, rheoli prosiect ac atebolrwydd yn arbennig, a gynigiodd gyd-destun a lle ar gyfer cydweithio. Mae cymryd rhan hefyd wedi'i gwneud yn haws estyn allan i aelodau eraill y gydweithrediaeth, gan fod cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi datblygu a chryfhau perthnasoedd, dysgu mwy am eu sefydliadau ei gilydd a chael dealltwriaeth well o'r wybodaeth a'r gallu a ddelir.

## ***Addasrwydd yr ymagwedd***

*Glasbrint, elfennau craidd a chylch oes*

Amlygodd y cyfranogwyr gydweithio rhyng-sector, nawdd a chydgynhyrchu datrysiad, yn ogystal ag arweinyddiaeth wedi'i haddasu'n dda, fe elfennau pwysicaf yr ymagwedd. Myfyriodd y cyfranogwyr ar i ba raddau yr oedd yr egwyddorion allweddol a oedd yn sail i'r glasbrint gwreiddiol wedi trosi'n ymarfer. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn teimlo y glynwyd at hyn gan mwyaf, heblaw am yr egwyddorion craidd sy'n ymwneud â phroses ailadroddol ac ymgysylltu â'r gymuned. Roedd y cyfranogwyr yn credu bod hyn oherwydd bod y grŵp wedi dewis mynd i'r afael â'r hyn yr ystyriwyd ei fod yn broblem dechnegol ac mai'r defnyddwyr terfynol yn yr achos hwn oedd cymuned o weithwyr proffesiynol yn bennaf (o'r gwahanol asiantaethau a gynrychiolir yn y gydweithrediaeth).

*"Fel arfer, byddai defnyddwyr terfynol yn gymunedau tebyg neu bobl y gallai'r newid rydych chi'n ei wneud effeithio arnynt. Fe wnaethon nhw ailddiffinio defnyddwyr terfynol yn fwy fel defnyddwyr y dangosfwrdd, felly gweithwyr proffesiynol. Nhw yw'r defnyddwyr terfynol, dybiwn i, ond nid o reidrwydd yn yr ysbryd a ddiffiniwyd yn y glasbrint yn y lle cyntaf." (Aelod, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Cytunodd yr aelodau fod cynhyrchu datrysiad yn llai ailadroddol ac organig, efallai, nag a fwriadwyd yn y glasbrint yn wreiddiol oherwydd bod gan y gydweithrediaeth syniad clir eisoes o'r datrysiad yr oedd eisiau ei ddatblygu. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod rhaid i'r ymgeiswyr, yn ystod y cam ymgeisio, amlinellu unrhyw ddatrysiadau a oedd ganddynt i'r broblem yr oeddent eisiau mynd i'r afael â hi. Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod y broses rhywbeth tebyg i ôl-beirianneg – dechreuodd y gydweithrediaeth gyda'r datrysiad ac yna gweithiodd yn ôl ar sut i'w gyflawni. Arweiniodd hyn at ymagwedd a ysgogir gan broses yn hytrach na bod yn archwiliadol, oherwydd teimlwyd nad oedd lle i arbrofi â gwahanol ddatrysiadau.

*"Roedden ni'n gwybod pa ganlyniad roedden ni ei eisiau, ac fe ddefnyddion ni'r rhaglen C4C i'w gyflawni." (Uwch arweinydd)*

*"Yn y glasbrint, esbonnir mai'r diben yw 'cynhyrchu ystod o ddatrysiadau' ac yna 'cytuno ar ddatrysiad a ffefrir'. Nid oedd y grŵp wedi trafod mwy nag un [datrysiad] ac fe allai fod rhywbeth i'w ystyried pan fydd pobl yn cyflwyno cais." (Aelod, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Myfyriodd y cyfranogwyr y gallai nod arall, heb ei ddatgan, o'r glasbrint fod wedi cael ei bwysleisio'n glir o'r dechrau; datblygu'r perthnasoedd tymor hir rhwng yr uwch arweinwyr a'r gymuned ehangach.

*Hwyluso*

Yn dilyn adborth gan uwch arweinwyr, addasodd yr hwyluswyr yr ymagwedd hwyluso. Amlygwyd yng Ngham 2 bod cyflwyno'r ymagwedd wedi elwa'n fawr o hwyluswyr profiadol, a oedd yn gallu cynnal y lle, dehongli arwyddion pobl yn yr ystafell rithwir ac addasu'n hyblyg yn ystod y sesiynau i'r hyn yr oedd ei angen ar y grŵp a chreu man mwy myfyriol. Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod hyblygrwydd yn allweddol i hwyluso a chyflwyno'n llwyddiannus. Er gwaethaf yr ymateb cadarnhaol yn gyffredinol tuag at lefel yr hwyluso, roedd rhai uwch arweinwyr o'r farn y dylai'r hwyluso fod wedi bod yn ysgafnach.

*"Roedd yn fwy diddorol ac yn fwy sgyrsiol. Roeddwn i'n teimlo nad oeddech yn mynychu rhywbeth i glywed rhywun yn pregethu wrthych yn unig." (Aelod ehangach)*

*"Fe gawson ni adborth gan yr arweinwyr nad oedden nhw eisiau nac yn ymateb yn dda i sesiynau a hwyluswyd yn gaeth. Roedden nhw eisiau dull ysgafnach, gan gynnal y lle yn fwy greddfol. Felly, fe addason ni i hynny. Roedden ni'n gwybod y gallen ni helpu gyda hynny. Fe allen ni gynnal cyfarfodydd byrrach, mwy bywiog a mynd ati." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Roedd rhai uwch arweinwyr o'r farn bod sesiynau hyfforddi'n elfen bwysig o'r model hefyd. Roedd yr hwyluswyr yn credu bod cynnal y sesiynau un i un hyn gyda phob arweinydd wedi'u helpu i ddeall cryfderau a rhwystredigaeth pob arweinydd, a oedd yn wedi'u galluogi i sylwi ar unrhyw beth a oedd yn rhwystro'r broses a chynllunio'n well ar gyfer y sesiynau grŵp. Roedd hyfforddi'n cynnwys helpu arweinwyr gyda sgiliau arweinyddiaeth addasol a'u hyfforddi ynglŷn â sut maen nhw'n cydweithio fel grŵp arweinyddiaeth.

*"Rwy'n credu bod hyfforddi'n rhan bwysig iawn o'r model mewn gwirionedd. Ond gallai'r ffordd y caiff ei gymhwyso amrywio o un gymuned i'r llall. Yn y pen draw, roedd yn ymwneud llawer mwy â'u hyfforddi nhw o ran sut maen nhw'n cydweithio fel grŵp arweinyddiaeth." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Fodd bynnag, roedd rhai uwch arweinwyr a gymerodd ran yn herio diben y sesiynau hyfforddi, a disgrifiwyd bod angen iddynt ddiffinio eu diben a'u ffiniau'n glir o ran datgelu. Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â chyfrinachedd a rhannu gwybodaeth a allai fod yn sensitif yn bersonol â'r grŵp ehangach, a oedd yn golygu bod ambell aelod yn amharod i gael sgwrs onest a rhannu myfyrdodau personol. Myfyriodd yr hwyluswyr hefyd nad oedd rôl a diben y sesiynau hyfforddi wedi'u hesbonio'n dda ar y cam paratoi, ac y gellid bod wedi treulio mwy o amser gyda'r gydweithrediaeth i amlinellu hyn yn glir ar y dechrau ac i reoli disgwyliadau.

*"Fe allem fod wedi gwneud mwy i esbonio pam y cynhaliwyd y sesiynau un i un, beth oedd y diben, felly ychydig mwy o waith i osod y cyd-destun, efallai. Rwy'n credu fy mod i wedi tybio y byddai pawb yn deall ein rôl ac rwy'n credu y gallem fod wedi gwneud mwy i esbonio hynny." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

*"Wrth fyfyrio ar fy rôl, rwy'n credu y dylwn i esbonio beth yw'r ffiniau a lle maen nhw'n gadarn, lle maen nhw'n fandyllog. Fel eu bod nhw'n deall hynny, wyddoch chi". (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Roedd llawer o'r cyfranogwyr o'r farn bod ymagwedd strwythuredig â chyfyngiad amser gyda cherrig milltir clir, yr oedd yn ofynnol i aelodau'r grŵp roi adborth ar eu cynnydd, yn gweithio'n dda ac roedd hwyluso effeithiol yn rhan annatod o hyn.

*"Roedd dod â phobl o wahanol sefydliadau ynghyd a gosod llinell amser ar ei gyfer wedi gweithio'n dda yn sicr." (Uwch arweinydd)*

*Beth oedd wedi gweithio a heriau*

O ganlyniad i natur y broblem a'r datrysiad technegol, roedd yr hwyluswyr yn teimlo ei bod yn anodd dangos sut oedd holl elfennau'r ymagwedd wedi

cael eu cymhwyso'n ymarferol. Cydnabu uwch arweinwyr ac aelodau Grŵp Goruchwylio'r Prosiect hefyd fod y prosiect yn llai cymhleth efallai ac yn cynnwys llai o bobl nag a ddisgwyliwyd yn y glasbrint, a oedd yn heriol o ran profi'r ymagwedd go iawn. Myfyriwyd y gallai pob cymuned neu brosiect fod yn wahanol ac y bydd gan ganddynt elfennau craidd gwahanol sy'n bwysicach i brosiectau gwahanol. Roedd y rhan fwyaf o'r uwch arweinwyr ac aelodau Grŵp Goruchwylio'r Prosiect yn cytuno, er mwyn cadw at y glasbrint go iawn, y byddai'r ymagwedd wedi gweddu'n well i fenter a sbardunir gan gymuned. Byddai hyn wedi cyd-fynd â diben a dyluniad gwreiddiol y glasbrint.

*"Roedd yn anodd iawn i mi ysgrifennu'r adroddiad diwedd cymuned o ran dangos beth maen nhw wedi'i wneud â'r ymagwedd. Mae'n anodd iawn dangos tystiolaeth o lawer ohono, felly'r cyfan mae'r adroddiad yn ei ddweud mewn gwirionedd yw eu bod nhw wedi datblygu cysylltiadau. Roedd yr arweinwyr wedi datblygu cysylltiadau a dyna beth sydd wedi gweithio. Ac mae hynny wedi gweithio. Bu hynny'n llwyddiant go iawn." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

### Effeithiolrwydd cydweithredu

Myfyriodd cychwynwyr y gydweithrediaeth ar sut oedd y prosiect peilot wedi cyd-ddigwydd ag adeg pan oeddent yn edrych ar ffyrdd arloesol o gyflawni gwaith traws-sector, a fyddai'n caniatáu iddynt gysylltu data presennol ar draws y sectorau iechyd a thai. Ceisiwyd cysylltu data iechyd a thai yn flaenorol ond heb lwyddiant. Roedd y cyfranogwyr yn credu ei bod wedi gweithio'r tro hwn oherwydd y nod cyffredin a'r cyfle ar gyfer cydweithredu traws-sector, integredig lle'r oedd pawb wedi ymrwymo o'r dechrau.

Er mwyn dod â sefydliadau ynghyd o'r gwahanol sectorau, roedd angen addasu a newid yr iaith ychydig i sicrhau bod pob sefydliad yn deall eu bwriadau ei gilydd yn ddigon da. At hynny, o ganlyniad i waith pob dydd ac ymrwymiadau eraill yr aelodau, roedd rhaid cael caniatâd y sefydliad i gwblhau gweithgareddau y tu allan i'r cyfarfodydd hyn er mwyn i'r aelodau allu bwrw ymlaen â'r gwaith.

Wrth fyfyrio ar y cylch oes, roedd yr hwyluswyr o'r farn y gallai'r cam paratoi fod wedi elwa o fwy o amser. Byddai hyn wedi galluogi'r hwyluswyr i ddeall y cyd-destun a'r perthnasoedd presennol yn well. Byddai hefyd wedi caniatáu mwy o amser i drafod yr anghenion hwyluso gyda'r uwch arweinwyr a'r offer a oedd yn cael eu defnyddio.

*"Rwy'n credu bod llawer ohono yn y cam paratoi. Rwy'n credu ein bod ni, fel arweinwyr cyflawni, wedi tybio bod yr holl arweinwyr yn adnabod ei gilydd yn well nag yr oeddent, ac fe dybion ni y byddai'r gymuned ehangach yn ymwneud yn weithredol â'r broses. Rwy'n credu yn y cam paratoi, efallai amser i bawb fod yn onest am beth maen nhw'n ei wybod, beth nad ydyn nhw'n ei wybod, a chyfle i ni i gyd ddod at ein gilydd a*

*chytuno ar beth sy'n mynd i ddigwydd." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Roedd rhai o gyfranogwyr y gydweithrediaeth yn teimlo y byddai wedi bod yn fuddiol cael mwy o amser i ddod â'r aelodau at ei gilydd a diffinio nodau ac amcanion yn ystod y cam paratoi. Byddai hyn hefyd wedi bod yn adeg ddelfrydol i weld pwy yr oedd angen iddo fod yn bresennol i sicrhau bod y datrysiad yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Cymerodd fwy o amser na'r disgwyl i ddatblygu'r dangosfwrdd ac ni fu'n bosibl cwblhau o fewn y 100 o ddiwrnodau o ganlyniad i heriau capasiti. Wrth fyfyrio ar hyn, awgrymodd y cyfranogwyr y gellid bod wedi atal hyn trwy gynnwys unigolion allweddol yn gynharach. Er gwaethaf yr her hon, cafodd y gydweithrediaeth wybodaeth werthfawr o ran deall pa ddata y mae pob sefydliad yn ei ddal a sut gallent ei rannu ar draws sefydliadau.

*Cynaliadwyedd*

Mae'r glasbrint yn cynnwys amlinellu cynllun ymadael cyn dechrau'r cam gweithredu er mwyn pennu sut byddai'r gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod 100 o ddiwrnodau'n cael ei ddatblygu, ei addasu neu ei gynyddu ymhellach. O ganlyniad i gyfyngiadau amser y cam paratoi, ni threuliwyd llawer o amser yn ystyried y camau nesaf ar ôl cwblhau'r cam gweithredu. At hynny, ni ystyriwyd cynllunio ar gyfer ymadael yn ystod y cam gweithredu. Arweiniodd hyn at rywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'r camau nesaf ar ddiwedd y cam gweithredu, er bod cyfranogwyr y gydweithrediaeth yn cydnabod y byddai'n werthfawr i'r sectorau iechyd a thai barhau i weithio mewn partneriaeth (e.e. comisiynu gwasanaethau ar y cyd, rhannu adnoddau, potensial i leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd).

*"Wel, beth sy'n digwydd nesaf? Nid dim ond o ran y grŵp craidd bach yr oedden ni'n rhan ohono, ond o ran Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd. Hynny yw, beth mae pwy bynnag a gychwynnodd y prosiect hwn eisiau iddo ddigwydd nesaf? I ble yr awn ni o fan hyn?" (Uwch Arweinydd)*

*"Roedd teimlad eu bod nhw eisiau parhau, yn sicr, ond doedd dim camau clir. […] Rwy'n credu eu bod nhw i gyd yn gwneud rhai tybiaethau, mewn gwirionedd, o ran pwy sy'n gwneud beth a sut mae'n mynd i ddigwydd." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

*Cynaliadwyedd y gydweithrediaeth, perthnasoedd gweithio*

Os yw'r ymagwedd yn ymwneud â chanlyniadau tymor hir, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen i hyn gael ei ddatgan yn fwy eglur yn y glasbrint. Dylai bwysleisio datblygu ffyrdd o gydweithio a dylid rhoi mwy o sylw i'r agwedd gynaliadwyedd yn y glasbrint.

Roedd uwch arweinwyr o'r farn eu bod wedi gallu sefydlu cysylltiadau ar draws gwahanol sectorau a chreu sylfaen ar gyfer rhannu data yn y dyfodol. Mae swydd a ariennir ar y cyd wedi cael ei sefydlu hefyd, a fydd yn alluogwr allweddol ar gyfer cynaliadwyedd y gydweithrediaeth.

Roedd ymrwymiad ac awydd i gyflawni, ond roedd y gydweithrediaeth wedi'i chyfyngu gan gapasiti y tu hwnt i'r cam gweithredu 100 o ddiwrnodau ac roedd cwestiynau ynglŷn â beth nesaf a phwy fyddai'n datblygu'r gwaith. Roedd yn ymddangos bod aelodau craidd yn cynnal y momentwm i sicrhau bod y system cyfuno data'n cael ei chreu a'i rhannu.

Er nad oedd yr her a ddewiswyd yn gwbl briodol i'r ymagwedd, roedd yr aelodau'n teimlo eu bod wedi gwneud iddi weithio cystal ag y gallent ac, o ystyried natur yr her, nid oedd lle i ailadrodd oherwydd bod y broses yn cael ei harwain gan ganiatadau.

*Cynaliadwyedd cyflawni'r ymagwedd*

Codwyd mater ynglŷn â chynaliadwyedd i barhau i gyflawni'r ymagwedd yn y dyfodol. Bydd yn dibynnu ar sicrhau cyllid ynghyd â hwyluswyr medrus a chymwys. Cydnabu'r aelodau sgiliau ac arbenigedd yr hwyluswyr allanol, gan nad oedd hyn ar gael yn fewnol ar hyn o bryd yn nhîm yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Er mwyn cymhwyso'r ymagwedd yn y dyfodol, byddai angen ystyried sut i uwchsgilio'r tîm presennol neu barhau i weithio gyda hwyluswyr allanol.

## *Datblygu'r prosiect*

Sefydlodd un o'r gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol (CHE) a oedd yn ymwneud â datblygu'r ymagwedd C4C sesiynau myfyrio rheolaidd gyda'r hwylusydd arweiniol. Rhoddodd hyn le i'r hwylusydd arweiniol fyfyrio a thrafod unrhyw heriau neu ddatrysiadau. Roedd cyfarfodydd Grŵp Goruchwylio'r Prosiect wedi darparu lle i arweinwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru a thîm cyflawni Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru fyfyrio hefyd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ar y dechrau yn ystod y cam cynefino pan oedd yr aelodau'n addasu i wahanol ddiwylliannau sefydliadol a defnyddio iaith wahanol.

> *"Yn y pen draw, roedd y grŵp goruchwylio'n bwysig mewn ffyrdd annisgwyl. Mewn ffordd, fe greodd fan diogel ar wahân i'r cam gweithredol ac fe'n helpodd i feddwl ychydig yn fwy am y darlun ehangach o ran yr hyn roedden ni eisiau ei gael o hyn i gyd, gan sicrhau ein bod yn meddwl am ddysgu a pheidio â chymryd yn ganiataol bod yr hyn rydyn ni wedi'i wneud yn iawn. Ond cydnabod ein bod ni'n rhoi cynnig ar rywbeth ac fe welwn ni sut eith hi." (Aelod, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

## *Myfyrio a dysgu*

Myfyriodd y cyfranogwyr, yn enwedig uwch arweinwyr, ar y broses gymhwyso ac roeddent yn credu y bydd angen rhoi mwy o sylw ac amser iddi i sicrhau bod y prosiect iawn yn cael ei ddewis a chyda'r lefel briodol o gymhlethdod i elwa fwyaf o'r ymagwedd C4C. Byddai'n fuddiol newid y pwyslais o ddiffinio'r canlyniad yn fwy tuag at bwysleisio'r broses ei hun.

*"Rwy'n credu bod rhywfaint o densiwn er mwyn cael y gefnogaeth, roedd rhaid i ni ddweud beth oedd ein problem a sut oedden ni'n mynd i'w datrys. […] Rwy'n credu mai rhan allweddol o hyn yw y dylai fod yn llai dibynnol ar y canlyniad, ac ymwneud yn fwy â'r broses, a'r canlyniad yw creu'r gymuned, nid o reidrwydd cynhyrchu rhywbeth ar y diwedd, allbwn terfynol." (Uwch arweinydd)*

Nid oedd modd profi'r ymagwedd C4C yn llawn, fel y rhagwelwyd yn y glasbrint, o ganlyniad i gyfyngiad amser, natur y prosiect a ddewiswyd a'r datrysiad. Yn arbennig, y broses ailadroddol ac ymgysylltu â defnyddwyr terfynol.

Ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd angen rhoi mwy o ystyriaeth i fframio a hyrwyddo'r ymagwedd er mwyn sicrhau bod y prosiect iawn yn cael ei ddewis.

*"Fe alla' i weld sut gallai hyn weithio yn fy mhen, ac fe allwn i weld sut mae'n gynnig da iawn i bartneriaid. Ond roedd yn anodd iawn annog pobl i fod yn rhan ohono. Wel, mewn gwirionedd, nid oedd yn cyd-fynd â'u cynlluniau pan ddaeth y cynnig…" (Aelod, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

*Damcaniaeth newid*

Roedd y ddamcaniaeth newid ynglŷn ag ymagwedd C4C Cymru yn fodel ac arweiniad gwerthfawr drwy gydol y broses. Fodd bynnag, dylid ei hystyried gyda rhywfaint o hyblygrwydd gan gydnabod yr angen i'w haddasu i wahanol brosiectau, yn dibynnu ar eu pwyslais. Gellid ychwanegu rhai elfennau hefyd, er enghraifft y cyfarfodydd ychwanegol ar gyfer yr uwch arweinwyr yn unig. Cydnabu Grŵp Goruchwylio'r Prosiect y bu'n anodd gwahaniaethu'r ddamcaniaeth newid ynglŷn â'r ymagwedd oddi wrth fanylion penodol CTMHHP i ddechrau. Roedd mewnwelediadau Q-Lab yn ddefnyddiol wrth wahanu'r cysyniadau hyn.

*Elfennau craidd a chylch oes*

Wrth fyfyrio, cynigiwyd bod dwy elfen graidd yn allweddol i'r ymagwedd; gwybodaeth wedi'i sbarduno gan ddata a phwysigrwydd proses ailadroddol i gynhyrchu datrysiadau. Dylid cadarnhau nawdd cyn i'r rhaglen ddechrau hefyd er mwyn sicrhau ymrwymiad a dylid annog yr aelodau i ystyried y cynllun ymadael yn gynharach.

Er bod y gofyniad am arweinyddiaeth addasol yn gyfyngedig o ganlyniad i natur y broblem a'r ffaith bod y datrysiad wedi'i amlygu ar ddechrau'r cam

gweithredu, roedd yn amlwg i ryw raddau wrth i arweinwyr addasu i weithio mewn gwahanol berthnasoedd. Canfuwyd bod sesiynau un i un yn cefnogi hyn.

Roedd angen mwy o amser ar rai rhannau o gamau'r cylch oes nag eraill ac, yn gyffredinol, roedd symud trwy'r broses cylch oes yn teimlo'n fwy ailadroddol na llinol. Roedd yr holl gyfranogwyr a gyfwelwyd o'r farn y gellid bod wedi treulio mwy o amser yn ystod y cam paratoi i osod y cyd-destun, ffurfio perthnasoedd a datblygu ymrwymiad. Yn ogystal, awgrymodd Grŵp Goruchwylio'r Prosiect y gallai'r cam gweithredu gael ei rannu'n gyfnodau profi a gwella er mwyn pwysleisio agwedd ailadroddol yr ymagwedd.

*"Rwy'n credu y dylen ni dreulio mwy o amser yn gweithio ar rai o'r materion perthynol yna gyda'r uwch arweinwyr ac, yn ôl pob tebyg, treulio sesiwn gyfan ar rai gweithgareddau sy'n ymwneud â nhw'n cydweithio a chadarnhau sut maen nhw'n gweld y byd." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Yn olaf, myfyriodd yr hwyluswyr ar yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu wrth gyflwyno'r prosiect peilot. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn hyblyg ac addasu i anghenion y grŵp, gallu cymryd model neu ymagwedd a'i (h)addasu heb golli ei hanfod, cyflwyno sesiynau byrrach ac addasu i wahanol bersonoliaethau er mwyn sicrhau bod pawb yn cael llais.

*"Dysgu sut i addasu. Er enghraifft, roedden ni'n cynnal sesiynau hir. Pan fydd sesiynau'n hir iawn, mae pobl yn colli diddordeb. Dangosodd sesiwn fyrrach, fwy penodol y gallwch chi gynnwys llawer mewn cyfnod byr a gweithio yn ôl cyfnod canolbwyntio pobl, a bod hynny'n iawn. […] Felly, rydw i wedi cael llawer ohono. Rydw i wedi dysgu llawer. Ac am resymau nad oedden ni'n eu disgwyl, rwy'n credu." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

### 6.1.3 Cyfweliadau Cam 3 (ar ôl 6 mis)

Rhoddodd y canfyddiadau o gyfweliadau Cam 3 gydag uwch arweinwyr wybodaeth am gynnydd y cam ôl-weithredu, cynaliadwyedd yr ymagwedd a'u myfyrdodau ar ganlyniadau ehangach a gyflawnwyd gan y gydweithrediaeth.

Amlygwyd y themâu allweddol canlynol:

- Galluogwyr a rhwystrau rhag gweithredu
- Addasrwydd yr ymagwedd
- Effeithiolrwydd cydweithredu
- Datblygu'r prosiect
- Amrywiol

### *Galluogwyr a rhwystrau rhag gweithredu*

Y prif rwystrau a grybwyllwyd gan yr uwch arweinwyr oedd capasiti ac adnoddau. Roedd gan holl aelodau'r gydweithrediaeth lawer o flaenoriaethau eraill ar ben y gwaith a oedd yn ofynnol gan y gydweithrediaeth.

Roedd rhwystrau ychwanegol a grybwyllwyd yn cynnwys biwrocratiaeth a dull cyflwyno rhithwir yr ymagwedd. Roedd yn anodd i'r gydweithrediaeth gael y data a ddymunwyd o fewn graddfa amser gyfyngedig y cam gweithredu. Arweiniodd y dull cyflwyno rhithwir at rwystrau wrth ddod i adnabod ei gilydd, a effeithiodd ar ddynameg y grŵp yn y pen draw. Dylai prosiectau yn y dyfodol gynnwys rhai sesiynau wyneb yn wyneb o leiaf.

*"Rwy'n credu mai'r broblem oedd bod gan bobl eraill swyddi eraill. Nid dyna oedd unig waith pobl ac fe gymerodd amser i gael gafael ar y data. […] Rwy'n credu mai amser oedd y broblem, yn syml, a bod yn onest." (Uwch arweinydd)*

Fel y myfyriwyd yn flaenorol yng Ngham 1 a Cham 2, roedd yr uwch arweinwyr a gyfwelwyd yng Ngham 3 hefyd wedi myfyrio ar werth hwyluswyr allanol a'u harbenigedd. Ystyriwyd bod y cymorth a'r nawdd a gafodd aelodau'r gydweithrediaeth yn alluogwr allweddol ar gyfer gweithredu hefyd. Credwyd bod cefnogaeth gan gyfarwyddwyr gweithredol yn hollbwysig i lwyddiant y gydweithrediaeth. Yn gyffredinol, er iddynt wynebu rhai rhwystrau, roedd y cyfranogwyr o'r farn bod yr ymagwedd yn dda ac roeddent yn gwerthfawrogi bod yn rhan o'r gymuned beilot.

### *Addasrwydd yr ymagwedd*

Yn debyg i'r myfyrdodau yng Ngham 2, crybwyllwyd natur problem y gydweithrediaeth yn ogystal â'r broses gymhwyso, yr oedd y cyfranogwyr o'r farn nad oedd yn rhoi llawer o gyfle iddynt newid cyfeiriad ar ôl i'r gydweithrediaeth ddechrau.

*"Ac er mwyn sicrhau'r gefnogaeth i C4C, roedd rhaid i ni lunio cynnig a dweud ni yw'r grŵp yma a byddwn ni'n gwneud hyn a'r llall […] Ac felly, roedd rhaid i ni gadw at hynny mewn gwirionedd." (Uwch arweinydd)*

Roedd aelodau'r gydweithrediaeth yn gwerthfawrogi gwaith yr hwyluswyr o ran eu rheoli a'u cadw ar y trywydd iawn. Roedd un cyfranogwr o'r farn y gallent fod wedi defnyddio'r hwyluswyr yn fwy, yn ôl pob tebyg, ond bod natur rithwir y broses yn gwneud hyn yn anodd. Roedd y dull cyflwyno rhithwir wedi arafu'r broses o ddatblygu perthnasoedd hefyd.

Yn olaf, ystyriwyd bod y strwythur yn briodol oherwydd ei fod yn sicrhau ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd. Er y rhoddwyd adborth cadarnhaol ynglŷn â'r ymagwedd yn gyffredinol, roedd un cyfranogwr yn credu y gallai'r

broses fod wedi bod yn hwy er mwyn sicrhau y byddai'r gwaith yn parhau'n effeithiol y tu hwnt i'r sesiynau wedi'u hwyluso.

### *Effeithiolrwydd cydweithredu*

Crybwyllodd uwch arweinwyr ymdeimlad o ymrwymiad i gyflawni yn ystod y gydweithrediaeth, fel yng Ngham 2, ond heriodd un uwch arweinydd gynaliadwyedd y cysylltiadau a'r perthnasoedd a ddatblygwyd. O ganlyniad i lwythi gwaith a blaenoriaethau eraill yr aelodau, roedd yn teimlo efallai y bydd angen 'cychwynnwr' o hyd i sicrhau bod yr aelodau'n cydweithredu'n barhaus. Ar y llaw arall, roedd yr uwch arweinydd arall yn eithaf cadarnhaol a gobeithiol ynglŷn â chydweithredu parhaus, oherwydd ei fod eisoes wedi cyfarfod ag aelodau'r gymuned ar ôl y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau.

### *Datblygu'r prosiect*

Dywedwyd droeon mai'r cam paratoi oedd cam pwysicaf y broses. Roedd y ddau uwch arweinydd yn cytuno bod y cam hwn yn allweddol i gyflawni canlyniadau. Wrth fyfyrio ar y cam hwn a'u profiad, roedd y cyfranogwyr yn cytuno y dylid bod wedi neilltuo mwy o amser ac ymdrech i gam paratoi'r prosiect.

Roedd un uwch arweinydd o'r farn bod y cam hwn yn gam allweddol o'r broses lle y gall y cyfranogwyr ddechrau deall ei gilydd a dechrau uniaethu fel grŵp yn hytrach na chynrychiolwyr unigol eu sefydliadau. Gallai uniaethu'n llwyddiannus fel grŵp arwain at fwy o ymrwymiad ac awydd i gyrraedd nod cytunedig.

### *Amrywiol*

Thema arall a ddaeth i'r amlwg o gyfweliadau Cam 3 oedd ymdeimlad o ychydig bach o raniad rhwng iechyd a thai. Roedd yr iaith a ddefnyddiwyd gan yr uwch arweinwyr yn dangos efallai bod diffyg dealltwriaeth neu ddiffyg cyfathrebu rhwng y ddau. Roedd rhai sylwadau'n awgrymu bod iechyd a thai yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol, ac felly fe allai fod heriau'n gysylltiedig â sut i gydweithio yn y dyfodol heb hwyluswyr a phwysau amser ymagwedd C4C Cymru. Myfyriwyd efallai nad yw aelodau iechyd yn llwyr ddeall cwmpas tai a sut gallant gydweithio o ddifrif i gael yr effaith fwyaf.

*"Rwy'n credu bod rhaid i iechyd ddeall nad oes angen rheoli argyfwng drwy'r amser. Rwy'n deall mai dyna sut maen nhw'n gweithredu fel arfer yn y byd sydd ohoni, ond byddai'n beth da ystyried hynny o'm safbwynt personol i. […] Mae'n rhaid bod meysydd lle mae iechyd yn teimlo, petai tai yn gysylltiedig ac roedden ni'n gwneud pethau yn y ffordd yma, fe allen ni wneud rhywbeth gwahanol." (Uwch arweinydd)*

Roedd rhywfaint o ansicrwydd hefyd ynglŷn â'r swydd newydd a grëwyd o ganlyniad i'r cydweithredu. Roedd yr ansicrwydd hwn yn ymwneud â phwy

fyddai'n cyfarwyddo'r unigolyn ac yn penderfynu beth i'w wneud â'r setiau data y byddai'n eu cynhyrchu. Mae'n bosibl mae'r rheswm am hyn oedd oherwydd bod y swydd newydd ei chreu yn dod o dan y bwrdd iechyd, ac felly roedd gan yr uwch arweinydd iechyd fwy o wybodaeth ar adeg y cyfweliadau Cam 3.

## 6.2 Canlyniadau a gyflawnwyd

Mae'r adran hon yn ceisio asesu i ba raddau y cyflawnodd CTMHHP nod y gydweithrediaeth o fewn y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau a'r cynnydd a wnaed yn ystod cyfnod chwe mis dilynol. Mae hefyd yn ceisio myfyrio ar ganfyddiadau'r cyfranogwyr o'r hyn y mae'r gydweithrediaeth wedi'i gyflawni ac amlygu unrhyw wersi a ddysgwyd.

Gosododd CTMHHP nod ar ddechrau'r cam gweithredu i ddatblygu dull ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid iechyd, tai ac awdurdod lleol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Cadarnhawyd yn gynnar yn y broses y byddai'r dull hwn ar ffurf dangosfwrdd data.

### 6.2.1 Cyfweliadau Cam 2 (cam ôl-weithredu)

Amlygodd dadansoddiad o'r canlyniadau a gyflawnwyd yn y cam cyfweld ôl-weithredu ddwy thema allweddol, a gyflwynir yn fanylach yn yr adran hon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Nodau'r gydweithrediaeth
- Datblygu perthnasoedd

#### *Nodau'r gydweithrediaeth*

Yng ngham cychwynnol y prosiect, roedd y gydweithrediaeth o'r farn, pan wnaethant osod y nodau penodol i sicrhau cytundeb rhannu gwybodaeth rhwng iechyd a thai a chynhyrchu prototeip o ddangosfwrdd data erbyn diwedd y cam gweithredu, fod hynny'n gyflawnadwy. Fodd bynnag, ni chyflawnwyd y nodau hyn yn llawn erbyn diwedd y cam gweithredu. Roedd rhywfaint o oedi annisgwyl wrth gasglu data ynghyd, sicrhau cymeradwyaethau a dadansoddi, a olygodd er bod y saernïaeth ar gyfer y dangosfwrdd wedi cael ei datblygu, nid oedd y setiau data wedi cael eu mewngludo.

Er gwaethaf heriau yn ymwneud â rhannu data a diogelu data, roedd yr aelodau'n teimlo eu bod wedi gallu symud ymlaen i bwynt lle y gellir dwyn y data ynghyd a chael prawf o gysyniad. Roedd gweithio tuag at ddatblygu prototeip wedi caniatáu i aelodau'r gydweithrediaeth amlygu'r data yr oeddent eisiau canolbwyntio arno.

*"Roedd hynny'n llwyddiant mawr. Felly, mae'n bwysig iawn gwybod eu bod nhw wedi ei wneud, a hynny oherwydd eu bod nhw wedi dod at ei gilydd ac ymrwymo i greu'r dangosfwrdd. Felly, fe gawson nhw gymeradwyaeth ar gyfer yr asesiad o'r effaith ar ddata, ac fe gawson nhw ganiatâd i rannu'r data. Doedd hyn erioed wedi digwydd o'r blaen. Felly, roedd rhai pethau mawr wedi digwydd." (Hwylusydd, Grŵp Goruchwylio'r Prosiect)*

Ar ôl y cam gweithredu, cyfarfu aelodau craidd ar wahân i gwblhau'r dadansoddiad o'r data'n derfynol. Roedd yr aelodau'n disgwyl i adroddiad terfynol gael ei gylchredeg, yn amlinellu'r canlyniadau ac argymhellion i'r sefydliadau eu rhoi ar waith. Roedd y gydweithrediaeth yn bwriadu defnyddio'r set ddata derfynol i lywio gwaith yn y dyfodol yn ymwneud â thai arloesol, a gallai weld ei hun yn datblygu darn arall o waith arloesol ar dai yn y dyfodol.

#### *Datblygu perthnasoedd*

Er bod yr hwyluswyr yn ansicr ynglŷn â chynaliadwyedd perthnasoedd, roedd holl aelodau'r gydweithrediaeth yn cytuno mai cryfhau perthnasoedd a chreu cysylltiadau ar draws y sectorau oedd prif fudd cymryd rhan yn y prosiect hwn. Dywedodd yr holl aelodau y bu'n brofiad cadarnhaol iawn, ac yn fuddiol i fanteisio ar y perthnasoedd rhyng-sector. Roedd uwch arweinwyr o'r farn bod parodrwydd i gynnal y perthnasoedd a sefydlwyd er y byddai'n gofyn am rywfaint o gydlynu.

### 6.2.2 Cyfweliadau Cam 3 (ar ôl 6 mis)

Amlygodd dadansoddiad o'r canlyniadau a gyflawnwyd ar ôl chwe mis dair thema allweddol, a gyflwynir yn fanylach yn yr adran hon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Datblygiadau
- Cysylltiadau a pherthnasoedd
- Y camau nesaf

#### *Datblygiadau*

Erbyn y cyfweliadau chwe mis, nid oedd nod gwreiddiol y gydweithrediaeth, sef creu platfform data a rennir, wedi cael ei wireddu'n llawn. Roedd y data wedi cael ei rannu, ond nid oedd wedi cael ei fewngludo i'r dangosfwrdd i'w ddadansoddi. Er gwaethaf hyn, roedd un uwch arweinydd yn parhau i gredu bod gwaith wedi cael ei gwblhau o ran dod at ei gilydd, gallu rhannu data rhwng iechyd a thai, a chreu swydd ar y cyd ar gyfer dyfodol y gwaith hwn.

Fodd bynnag, mae'r allbwn o waith y gydweithrediaeth wedi helpu i lywio gwaith pellach yn y maes hwn. Er enghraifft, cyflwynwyd a rhannwyd y data a gasglwyd ar gyfer y dangosfwrdd mewn uwchgynhadledd Iechyd a Thai yn yr haf 2022, a fynychwyd gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r data hwn hefyd wedi llywio cynnwys/bwydo i gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus. At hynny, o ganlyniad i'r prosiect hwn, mae'r pwyslais ar bartneriaeth rhwng iechyd a thai wedi cael ei ychwanegu fel amcan yn strategaeth tymor hir Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

*"Fe wnaethon ni rannu platfformau mewn uwchgynhadledd ar draws y bwrdd iechyd ynglŷn â thai ac iechyd, ac mae maes tai ac iechyd bellach wedi cael ei gynnwys yn y strategaeth tymor hir ar gyfer y Bwrdd Iechyd hefyd. Felly, o ganlyniad i weld potensial y grŵp hwnnw, mae gennym ni dai ac iechyd fel amcan yn ein strategaeth 2030." (Uwch arweinydd)*

Un o ganlyniadau eraill y gydweithrediaeth yw creu swydd Rheolwr Rhaglen Iechyd a Thai ar secondiad. Bydd y swydd wedi'i lleoli yn adran gynllunio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a disgwyliwyd y byddai deiliad y swydd yn dod o gefndir tai yn hytrach nag iechyd. Roedd y ddau gyfranogwr o'r farn bod creu'r swydd hon yn gyfle mawr ar gyfer mwy o gydweithio, ond roedd yn ymddangos nad oedd gan un uwch arweinydd wybodaeth gyfredol gan nad oedd yn gwybod a oedd rhywun wedi cael ei benodi ac wedi dechrau a beth fyddai ei gylch gwaith. Roedd yr uwch arweinwyr yn gobeithio y bydd hyn yn helpu gyda rhai o'r rhwystrau rhag cynaliadwyedd.

### *Cysylltiadau a pherthnasoedd*

Datblygu perthnasoedd oedd un o'r agweddau ar ymagwedd C4C Cymru a werthfawrogwyd fwyaf. Roedd y ddau uwch arweinydd a gyfwelwyd yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau newydd yr oeddent wedi gallu eu gwneud. Roedd un uwch arweinydd o'r farn mai cyfuno a datblygu perthnasoedd oedd "prif ganlyniad y broses".

A hwythau'n uwch arweinwyr, a chanddynt gysylltiadau eisoes mewn sefydliadau amrywiol, roeddent yn mwynhau gallu gwneud y cysylltiadau hynny gyda phobl nad oeddent wedi cyfarfod â nhw o'r blaen. Roedd y gymuned wedi dwyn ynghyd pobl â diddordebau tebyg ond efallai nad oeddent erioed wedi cael y cyfle i weithio gyda'i gilydd o'r blaen.

### *Y camau nesaf*

Roedd gan y ddau uwch arweinydd a gymerodd ran yn y cyfweliadau T3 safbwyntiau ychydig yn wahanol ynglŷn â'r camau nesaf. Roedd un uwch arweinydd yn teimlo'n ansicr ynglŷn â beth fyddai'n digwydd nesaf ac nid oedd yn gwybod sut na phryd y byddent yn dod at ei gilydd eto. Roedd y cyfranogwr hwn o'r farn y byddai'n fuddiol i rywun allanol, sef 'cychwynnwr',

gymryd yr awenau a threfnu'r cyfarfodydd ar eu rhan er mwyn i'r gwaith ddatblygu ymhellach.

*"Beth sy'n digwydd nesaf, wyddoch chi, a oedd yn stori dda? A oedd yn stori wael? Os oedd yn stori dda, pa gamau y mae angen i ni eu datblygu ohoni? Os nad oedd yn stori gystal? Beth mae angen i ni ei wneud gyda'n gilydd fel iechyd a thai i gymryd y cam nesaf? Felly, dyna ble'r ydw i ar hyn o bryd, mewn gwirionedd, 'Marc cwestiwn.'" (Uwch arweinydd)*

Ar y llaw arall, roedd yr ail uwch arweinydd a gyfwelwyd o'r farn bod pethau'n datblygu'n dda. Roedd yn credu y byddai'r swydd secondiad newydd a grëwyd yn dod â phethau at ei gilydd yn effeithiol yn y dyfodol. Roedd yn credu bod cyfathrebu â'r aelodau eraill wedi parhau ers diwedd y cam gweithredu.

*"Rwy'n credu mai'r cam nesaf yw penodi i'r swydd. Fe all yr unigolyn hwnnw fwrw ymlaen â'r gwaith." (Uwch arweinydd)*

## 6.3 Damcaniaeth Newid

Gan fyfyrio ar y ddamcaniaeth newid ar gyfer yr ymagwedd, roedd y tybiaethau a fynegwyd gan Grŵp Goruchwylio'r Prosiect yn gywir at ei gilydd.

Fodd bynnag, ni wireddwyd y dybiaeth y byddai uwch arweinwyr yn datblygu cynllun ymadael gan nad oedd cynllun ymadael wedi cael ei drafod yn benodol gan uwch arweinwyr na'r gymuned ehangach. Roedd yr aelodau'n teimlo y dylai'r broses hon o drafod a chytuno ar gynllun neu strategaeth ar gyfer y cam ôl-weithredu fod wedi cael ei chynllunio'n fwy ac y dylid bod wedi neilltuo mwy o amser iddi.

O ganlyniad i gyfyngiadau amser, nid oedd y gwerthusiad wedi asesu newidiadau i gyfeiriad meddwl y cyfranogwyr neu gyfeiriad meddwl y gydweithrediaeth yn ffurfiol. Felly, nid oedd modd asesu i ba raddau yr oedd cyfeiriad meddwl unigol a chyfunol ar gyfer twf[4] ac arbrofi wedi cael ei ddatblygu yn ystod oes y gydweithrediaeth neu wedi cael ei gynnal ar ôl y cam gweithredu.

O ran effeithiau, cytunodd y gydweithrediaeth ar ddatrysiadau, ond ni chyflawnodd y nod a fwriadwyd, sef creu dangosfwrdd. Gwelodd yr aelodau werth yr ymagwedd a rhannwyd yr hyn a ddysgwyd wedi hynny yn yr Uwchgynhadledd Iechyd a Thai. Nid ydym yn gwybod i ba raddau y rhannwyd yr hyn a ddysgwyd gyda thimau ar draws Iechyd neu Dai.

## 6.4 Dysgu allweddol

Gan ddefnyddio'r canfyddiadau o gyfweliadau Cam 1, Cam 2 a Cham 3, mae'r adran hon yn ystyried rhai o'r gwersi allweddol a ddysgwyd o'r

gwerthusiad y dylid eu cadw mewn cof wrth ddefnyddio ymagwedd C4C Cymru yn y dyfodol.

- Dylai'r glasbrint nodi rhai o fuddion tymor hir posibl yr ymagwedd yn fwy penodol, fel datblygu perthnasoedd tymor hir rhwng asiantaethau a chytuno ar ffyrdd o gydweithio. Yn gyffredinol, dylid rhoi mwy o sylw i gynaliadwyedd yn y glasbrint.

- Mae'n bwysig dewis y broblem iawn a'r mathau iawn o asiantaethau i dderbyn cymorth C4C Cymru. Dylai'r broses ymgeisio roi llai o bwyslais ar ymgeiswyr yn disgrifio datrysiadau posibl a mwy o bwyslais ar y broblem, pa ddatrysiadau y rhoddwyd cynnig arnynt yn y gorffennol a phwy y byddent eisiau eu cynnwys yn y gydweithrediaeth.

- Mae hyblygrwydd yn ystyriaeth allweddol i gydweithrediaethau C4C Cymru yn y dyfodol. Mae angen i'r glasbrint adlewyrchu'r ffaith bod hyblygrwydd yn allweddol i gyflawni'r ymagwedd yn effeithiol, yn dibynnu ar natur a chyd-destun y newid sy'n ofynnol. Ni fydd symud trwy'r broses yn dilyn llinell syth o reidrwydd ac fe allai fod angen ailadrodd rhai pwyntiau, sydd hefyd yn adlewyrchu'r sgiliau y mae angen i hwyluswyr feddu arnynt i allu addasu yn ystod y cam gweithredu. Dylai gallu'r hwyluswyr i sylwi ar unrhyw heriau posibl sy'n codi gael ei ychwanegu fel elfen yn y glasbrint hefyd. Er enghraifft, pan fydd gan bobl wahanol safbwyntiau a barn, mae'r hwylusydd yn allweddol i ddod o hyd i ddatrysiad a chynnal cynnydd.

- Mae angen i uwch arweinwyr ystyried gallu'r aelodau i gyflawni ar ddechrau'r broses. Fel y nodir yn y glasbrint, dylai fod gan unigolion ganiatâd gan eu sefydliadau unigol i weithio ar dasgau rhwng y cyfarfodydd. Gallai methiant i gael cefnogaeth fod yn niweidiol i lwyddiant cymuned.

- Roedd aelodau'r gydweithrediaeth o'r farn bod yr ymagwedd â chyfyngiad amser 100 o ddiwrnodau yn fuddiol iawn, oherwydd roeddent yn credu ei bod yn galluogi atebolrwydd ac yn sicrhau bod pobl yn gweithredu. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, dylai ailadroddiadau o'r ymagwedd yn y dyfodol ganiatáu mwy o amser yn ystod y cam paratoi i sicrhau bod cynllunio ar gyfer ymadael yn cael ei ystyried, ynghyd â digon o amser i ffurfio perthnasoedd a datblygu ymrwymiad ymhlith yr uwch arweinwyr. Gellir mireinio manylion terfynol y cynllun ymadael yn ystod y cam gweithredu.

- Er yr ystyriwyd bod yr ymagwedd â chyfyngiad amser 100 o ddiwrnodau yn fuddiol, heriodd rhai cyfranogwyr ei manteision ar gyfer newid tymor hwy a chynaliadwyedd. Yn y cyfweliadau, heriodd rhai cyfranogwyr y syniad o gefnogi materion cymhleth gyda

chymorth dwys ac yna gadael ar ddiwedd y 100 o ddiwrnodau. Mae hyn yn awgrymu y gallai lefel o gymorth sy’n lleihau’n raddol yn ystod y cam ôl-weithredu fod yn fuddiol.

- Dylai C4C Cymru yn y dyfodol wneud ymdrech i gynnwys rhai digwyddiadau wyneb yn wyneb, yn enwedig yn ystod y cam paratoi ac yn gynnar yn ystod y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau. Os bydd yr ymagwedd yn cael ei chyflwyno’n rhithwir eto yn y dyfodol, argymhellwyd cynnwys trafodaeth ar ddisgwyliadau hwyluso ar-lein ar ddechrau’r broses gyda’r holl aelodau. Dylai’r elfen hon gael ei hychwanegu at y cam paratoi yn y glasbrint.

# 7 Casgliadau

At ei gilydd, er bod rhai pryderon ynglŷn ag addasrwydd ymagwedd C4C i’r broblem yr oedd CTMHHP yn ceisio mynd i’r afael â hi a’r angen amdani, roedd y gydweithrediaeth o’r farn bod yr ymagwedd yn ddefnyddiol ac yn fan cychwyn da i ddod â phawb at ei gilydd, gan ddarparu map trywydd a hwyluso strwythuredig, a oedd yn caniatáu i’r grŵp amlinellu cynnydd a chynnal pwyslais.

Ni chyflawnwyd nodau CTMHHP yn llawn yn ystod y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol tuag at ddatblygu dull ar gyfer rhannu data iechyd a thai, gan gynnwys cytundeb rhannu gwybodaeth a datblygu’r saernïaeth ar gyfer dangosfwrdd. Yn ogystal, arweiniodd yr ymagwedd â chyfyngiad amser at ddatblygu perthynas effeithiol rhwng tai ac iechyd a chanlyniadau anfwriadol cadarnhaol, gan gynnwys cael cyllid ar gyfer swydd iechyd a thai ar y cyd.

Mae’r gwerthusiad wedi dangos defnyddioldeb yr ymagwedd, ond er mwyn gwneud y mwyaf ohoni mae’n bwysig bod y broblem iawn yn cael ei dewis ac nad yw’r ymgeiswyr wedi penderfynu ar y datrysiad a ffefrir o’r dechrau. Mae’r prosiect peilot wedi rhoi gwybodaeth werthfawr i fireinio’r glasbrint ymhellach. At ei gilydd, roedd y tybiaethau a fynegwyd gan Grŵp Goruchwylio’r Prosiect yn y ddamcaniaeth newid yn gywir, er nad oedd modd asesu i ba raddau y datblygwyd cyfeiriad meddwl twf[5].

# 8 Cyfeiriadau

[1] Winding C, Heathcote-Elliott C a Humphreys C. Communities4Change Wales: Scope and Development. 2021.

[2] Winding C, Heathcote-Elliott C a Humphreys C. Communities4Change Wales: Blueprint. 2021.

[3] Braun V, Clarke V. Using thematic analysis in psychology. Qualitative Research in Psychology. 2006;3(2):77–101.

[4] Ritchie, J. a Spencer, L. Qualitative data analysis for applied policy research gan Jane Ritchie a Liz Spencer yn A.Bryman ac R. G. Burgess [goln] "Analyzing qualitative data", 1994, tud.(au) 173- 194.

[5] Mindset to growth programme [y rhyngrwyd]. Mindset Practice. 2022 [cyfeiriwyd ato 2023Ion3]. Ar gael o: https://www.mindsetpractice.com/mindset-to-growth-programme/